Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 7. Rhif 10.] HYDREF, 1907. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
Addoli Natur.
Gwili.
Claddu ynte Llosgi—Pa un?
R. J. Jones, M.A., Aberdar.
Trem ar Lydaw.
Sarnicol.
Yr Undodwr yn ol 'Perl y Plant.'
E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.
Undodiaeth yn Ngogledd Cymru.
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

YN AWR YN BAROD. PRIS 3s. DRWY Y POST, 3s. 3c.

Gwerin-eiriau Sir Gaernarfon: Eu Hystyr a'u Hanes,

GAN

J. JONES (Myrddin Fardd).

ADOLYGIADAU:

"I bawb a gar werin ei wlad, ac a awydda wybod mwy am ei hiaith a'i harferion, y mae'r gyfrol yn werthfawrusach nag arian."—*Gwalia.*

"Llyfr cywrain tuhwnt yw "Gwerin-eiriau Sir Gaernarfon," dyry i ni fudd a difyrwch."—*Spinther.*

"Dyma lyfr difyr odiaeth, a gwerthfawr gyda hyny."—*Alafon.*

I'w gael oddiwrth yr Awdwr—

MYRDDIN FARDD,

CHWILOG, R.S.O., CARNARVONSHIRE.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

" *Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1907. [CYF. VII. RHIF 10.

AR EDYN FFYDD.

A DWYLAW hael ein Duw sy 'n hau
Ei roddion îs y rhod ;
O boed i bawb mewn parch neshau
I seinio byth ei glod.
Cyn amser maith na bod y byd
Yr oedd ein Duw erio'd ;
Pan ddarffo'r ddae'r a'i gwaith i gyd
Fe bery byth ei glod.
Ni wiw i'r traws arferyd trais
'Ddistewi rhai sy 'n moli'r Ion,
Gwnai 'i Radau 'n llawn i'n godi 'n llais
I foli Duw mewn nefol dôn ;
Ei fendith rhŷ i bawb îs rhod,
I'w enw glân byth canwn glod.

RACINE (*cyf.* DAFIS CASTELL-HYWEL).

CADW ni beunydd mewn cof, Hollalluog Dduw. Yn gyflym, fel ag y mae dydd yn dilyn dydd, a nos yn dilyn nos, felly hefyd, megys cysgod breuddwyd, yr êl heibio ein marwol fywyd yn y byd. Dyro i ni zêl yn mhob gweithredoedd da, i wneuthur â'n holl egni pa beth bynag a gaffo ein llaw i'w wneud, cyn y dêl y nos, pan nas dichon neb weithio. A chan daflu o'r neilldu bobpeth bydol ac hunangar, gâd i ni redeg yr yrfa a osodwyd o'n blaen, gan enill o'r diwedd o Dy law, O Arglwydd y nerth a'r gogoniant, goron anfarwoldeb a llawenydd tragywyddol. Amen.

NODION Y MIS.

BYDD yn dda gan ddarllenwyr yr YMOFYNYDD ddeall fod ein parchus gyd-olygydd, T. Arthur Thomas, wedi glanio'n ddiogel ar lannau Lloegr Newydd. Mae'n ddiamheu genym y cawn hanes cyflawn a dyddorol o'i daith ganddo 'rol dychwelyd. Prif amcan teithio môr a thir, meddai rhywun, yw gweled gogoniant cartref. Iach hynt i'n cyfaill i ddod yn ol i Gymru—gwlad y gogonedd.

Dau o gynrychiolwyr mwyaf pwysig Ewrob yn Nghyfarfodydd Rhwng-genedlaethol Boston—lle y mae ein cyd-olygydd wedi cyfeirio ei gamrau—ydynt y Proff. Dr. G. Bonet-Maury o Paris a'r Parch. Max Fischer, D.D., gweinidog eglwys St. Marc yn Berlin. Y mae y Proff. Bonet-Maury yn awdurdod ar hanes Cristionogaeth Undodol yn Lloegr, a sieryd yn Boston ar gyflwr presenol Protestaniaeth yn Ffrainc. Y mae Dr. Fischer yn bregethwr cryf a dylanwadol, ac yn amddiffynydd cadarn i iawnderau yr aelodau hyny o'r Eglwys Efengylaidd yn yr Almaen ydynt wedi gosod o'r neilldu hen gredoau ac athrawiaethau'r gorphenol, ac mewn cydymdeimlad a dadblygiadau crefyddol a duwinyddol yr oes.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng syniadau'r Parch. R. J. Campbell ac athrawiaethau cyffredin Undodiaeth? Fel y dywed y *Christian Register* am dano:—"Y mae ei lyfr yn adlewyrchu'r un dull o feddwl âg Undodiaeth, ac yr ydym yn lled-dybio mai Undodiaid fydd ei ddarllenwyr mwyaf ffyddlon." Wrth gwrs, y mae amryw resymau gan bregethwr poblogaidd y City Temple dros beidio dwyn *label* Undodiaeth, ond yn ein byw nis gallwn weled y gwahaniaeth rhwng ei "Drindodiaeth" ef, fel yr esbonia hi, ag Undodiaeth y dydd presenol. Yn wir cyfaddefa Mr. Campbell fod "Undodiaeth y dydd presenol yn pregethu yn glir a gwresog wirionedd sylfaenol y Dduwinyddiaeth Newydd—hyny yw, undod sylfaenol Duw a dyn. Ond ni pherthyn yr athrawiaeth i Undodiaeth yn unig, ac am hyny yr wyf yn gwrthod cymeryd fy ngalw'n Undodwr." Eithaf gwir, ond y cwestiwn ydyw, pa enwad ar hyd y blynyddau sydd wedi bod yn pregethu ac yn ymladd dros y syniadau rhyddfrydig hyny mewn crefydd a elwir heddyw y Dduwinyddiaeth Newydd? Ond nid yw ein henwad erioed wedi hynodi ei hun gan zêl dros broselytio, nag ychwaith gan frwdfrydedd i ddenu y tyrfaoedd. Y mae'r gwirionedd yn fwy nag enwad; ac os derbynir y goleuni gwell gan eraill, llawenhawn, pa enw bynag a fabwysiedir gan dderbynwyr y goleuni hwnw.

Y mae ysgrifenydd Nodiadau Misol y *Dysgedydd* yn lladd yn enbyd ar "apostolion y 'Dduwinyddiaeth Newydd.'" Nis gall weled sut y gall fod yn onest ac yn anrhydeddus mewn gweinidogion Ymneillduol i dderbyn arian Annibynwyr am bregethu cymysgedd o Undodiaeth, Pantheistiaeth a Phaganiaeth yn lle Cristionogaeth. A gadael y cwestiwn o onestrwydd o'r naill ochr—y mae hawl gan bob cynulleidfa Annibynol i ofyn i'r gweinidog ymddiswyddo, os na fydd yn pregethu yr hyn ystyriant yw y ffydd wirioneddol—amlwg yw nad yw Undodiaid, yn ohyb yr ysgrifenydd, yn Gristionogion. Nid oes genym ond cyfeirio sylw ein darllenwyr at yr erthygl alluog ar y mater hwn yn dwyn y penawd "Yr Undodwyr yn ol *Perl y Plant.*"

Wele rai o'r erthyglau rhyddfrydig a gondemnir gan gylch-lythyr swyddogol diweddar y Pab Pius X. :—

"Nid yw ysprydoliaeth ddwyfol yn llwyr adael allan y posiblrwydd o gyfeiliornad yn mhob rhan o'r Ysgrythyrau Sanctaidd."

"Y mae cydsynio a ffydd, pan ddansoddir y cwestiwn yn fanwl, yn golygu cydsynio a rheswm, hyny yw, a chyfanswm bob peth sydd debycaf o fod yn wir."

"Yn y Bibl ystyr yr enw Mab Duw yw Messiah, ac nid yw yn golygu o gwbl fod Crist yn wir naturiol Fab i Dduw."

Yn ychwanegol at gondemnio'r erthyglau uchod, y mae'r Pab yn gwahardd ei olynwyr i ddilyn yr uwch-feirniaid, ac yn amddiffyn hawl yr Eglwys Babyddol i ymyraeth a'r hyn ddysgir gan Wyddoniaeth Naturiol.

Yn Ymofynydd wythnosol y Sais, sef yr *Inquirer*, am Medi 7, y mae'r Parch. J. Tyssul Davies yn adolygu "*My Life and Times*," gan y Parch. D. P. Fauré, diweddar weinidog Eglwys Rydd Brotestanaidd Cape Town. Fel y dywed yr adolygydd :—"Am yn agos ddeng mlynedd ar hugain bu Mr. Fauré yn gwasanaethu yr achos a ddygasai i fodolaeth yn Cape Town, gan weinidogaethu i'r gynulleidfa, cyhoeddi darlithiau, amddiffyn egwyddorion duwinyddiaeth rydd yn y wasg ac ar y llwyfan, a sefyll fel rhyw *Athanasius yn erbyn y byd* yn Neheudir Affrica."

Yr ydym fel Golygwyr yr YMOFYNYDD wedi bod yn pendroni llawer uwch y cwestiwn, pa fodd i wneud y cylchgrawn yn fwy poblogaidd, a pha gynllun allesid fabwysiadu i ledaenu ei gylchrediad. Gwyddom yn dda fod yr YMOFYNYDD eisoes yn cymharu yn dra ffafriol a chylchgronau enwadau eraill. Ond nid da lle gellir gwell. Cwyna rhai fod y pris yn ormod. Eraill haerant fod yr erthyglau yn rhy sych ac ysgolheigaidd i'r lluaws o'i ddarllenwyr, ac y dylem ar bob cyfrif ostwng y *rhastal.* Myn rhai eto fod yn ein

misolyn ormod o bethau nad oes iddynt y berthynas leiaf a materion Undodaidd. Grwgnacha rhai nad yw Golygydd y Farddoniaeth yn gwneud ei waith, a bod Congl yr Awen yn aml yn oer a gwag; tra mae eraill yn dwrdio'n arw am fod colofnau gwerthfawr yn cael eu cymeryd i fyny gan ryw "sothach melldigedig" y mynir galw barddoniaeth arno.

Yn awr, beth pe bae ein darllenwyr yn traethu eu barn ar y pwnc? Agorwn ein colofnau, chwedl y 'purau newyddion, y mis nesaf i ohebwyr ar y cwestiwn o "Ledaenu Dylanwad yr YMOFYNYDD." Diamheu mai'r gwelliant cyntaf awgrymir yw, ysgubo'r offis o'r ddau olygydd presenol; ond dymunem adgofio'r gohebwyr fod hen Olygydd y Farddoniaeth wedi gorfod ymddiswyddo eisoes yn herwydd trymder y gwaith; felly ni fydd eisieu dweyd rhagor ar benawd y golygwyr.

Y mae genym y pleser o longyfarch Eglwys Undodaidd West Grove, Caerdydd, ar eu gwaith o ddewis y Parch. F. Blount Mott i fod yn weinidog iddi. Y mae Mr. Mott wedi dyfod o eglwys Undodaidd Southport, ac y mae yn bregethwr a llenor tra adnabyddus yn y wlad hon a'r Amerig. Edrychir ar ei *History of Unitarianism* fel gwaith safonol, ac y mae wedi myned drwy y trydydd argraffiad.

Da genym weled fod yr henafgwr parchus, Thomas Thomas, Y.H., Green Park, hen weinidog Pantdefaid, yn dal mewn iechyd corfforol a nwyfiant meddwl o hyd. Er yn 84 oed y mae mor ddifyr ei stori, a byw ei adgofion ag erioed. Y mae ei lais yn cadw llawer o berseinedd dwfn y dyddiau fu,—llais y weddi gref a'r bregeth ddwys ar ddydd yr angladd. Er cymaint digrifwch chwareus ei natur, y mae'r nodyn lleddf yn llechu yn ngwaelodion ei enaid. Cofus genym fod tri o honom (ac ef yn un)—tri Thomas gyda llaw—yn ffarwelio a'u gilydd un noson ger capel Pantdefaid, "Wel," medd un, "rhaid i mi dynu am lan Teifi." "Rhaid i minau," ebe'r ail, "chwilio am lan Cerdin. Ac yr y'ch chwithau, Mr. Thomas, debygaf, yn cyfeirio eich camrau tua glan Clettwr." "Eithaf gwir, mechgyn i," meddai'r hynafgwr, "*ond rhaid i ni gyd dynu am lan yr Iorddonen yn y diwedd.*"

HYDREF.

Melyna amliw anian—drwy y tir,
Daw'r twf i'w lawn oedran;
O'i safle glwys afal glân
A gwymp o hono'i hunan.—EBEN FARDD.

ADDOLI NATUR.*

Un o ganghenau mwyaf buandwf gwybodaeth, yn ein cyfnod, yw hono a adnabyddir wrth yr enw Gwyddor Grefyddol. Dechreuodd Kant a Schleiermacher osod i lawr sylfaen athroniaeth grefyddol, ond pensaer y wyddor hono oedd Hegel, yn ei ddarlithiau (1821-1831). Dilynodd datblygiad athroniaeth hanes, a gychwynwyd gan Vico (1725), Voltaire (1756), a Lessing (1784), ac a gyfnewidiwyd yn ddirfawr gan Buckle (1858), a Rannke, yn ddiweddarach. Teimlid, er hyny, gan athronwyr gwyddonol na chawsid drwy'r gwyddorau hyn namyn peiriant rhagorol, heb fawr neu ddigon o ddefnyddiau at waith drwyddo. Y canlyniad fu myned ati i gyflenwi'r diffyg, a diffyg mawr diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fu datguddio trysorau ieithoedd, llên gwerin, a chrefyddau cenedloedd haner gwâr neu anwar, a rhoi byd o oleuni ar ddechreu gwareiddiad a chrefydd dyn. Arweinydd yr ymchwiliadau yn Lloegr oedd Max Müller, ond gwnaed gwaith mwy trwyadl feallai gan Tylor a Frazer. Ceisiodd Herbert Spencer le i'r dadleniadau yn ei gyfundrefn foesegol, ond nis gellir derbyn ei gasgliadau ail-law bob amser, heb gofio fod pobpeth yn cael ei ddarostwng ganddo i'w ddamcaniaeth ddatblygol. Ar y cyfandir, gwnaed gwaith rhagorol gan Tièle, A. Bastian, Réville, a De La Saussaye; ond nis gellir dweyd fod pendantrwydd a chydsyniad wedi eu cyraedd dan lawer pen. Casglwyd pentwr o ddefnyddiau, a bellach caiff y wyddor newydd le i ddatblygu, a rhoi trefn a dosbarth ar y defnyddiau hyn.

Nid oes genym, ar hyn o adeg, ond

DEFNYDDIO'R GOLEU SYDD GENYM

i ddeol yr ymdriniaeth fwyaf credadwy ar Natur Addoliad.

1. Nid yw yn hysbys pa bryd y dechreuodd dyn addoli. Daliodd rhai fod arwyddion o beth cyfystyr i addoliad mewn gwrthrychau islaw dyn. Edrychir ar ymlyniad ci wrth ei feistr fel gwarogaeth i dduw. Beth bynag am hyn, a phethau cyffelyb, amlwg yw nas gellir mwyach (tra 'n cydnabod gwerth penodau cyntaf Genesis fel traddodiad puredig) edrych ar 'ddechreuadau'r' Beibl fel ffeithiau. Bernir, oddiwrth weddillion Henfodoliaeth, i ddynion ymddangos ar y ddaear 200,000 neu 300,000 o flynyddoedd yn ol. Nid yw yn amlwg fod iddynt un tad cyffredin; nid oedd ganddynt iaith nac arfer. Gesyd Mortillet grefydd i lawr fel dyfais gymharol ddiweddar. Dywed i ddyn fyw 220,000, heb fath yn y byd o addoliad. Ychydig, er hyny, o'r awdurdodau a geir i'w ddilyn yn hyn, am fod yn amhosibl adgreu'r sefyllfa gyntefig, fel ag i farnu gyda hyder.

Sut, ynte, y dechreuodd dyn addoli? Amlwg yw fod dechreu addoli ac ystyr addoliad yn ddau beth perth'nasol, er nad yn ddau beth cyfystyr. Posibl yw i ddyfaliadau athronyddol am ystyr addoli liwio gormod ar olrheiniad dechreu addoli. O leiaf, dyna gesglir oddiwrth y damcaniaethau amrwd a nodweddai lyfrau cynar ar y pwnc. Delid gynt mai hudoliaeth offeiriadol fu 'n achlysur addoli. Edrychid, bryd arall, ar addoli fel peth wedi deilliaw o fath o ddyryswch synwyrol neu *hysteria*. Mynai Peschel fod yr hynafiaid yn gywir wrth briodoli dechreu addoli i *ofn* ('primus in orbe Deos

* Er nad yw pobpeth yn hyn o ysgrif, yn marn yr awdwr ei hun erbyn hyn, yn gwbl gywir, eto credir fod ei baich yn agos i'w le.

fecit timor') ; tra y daliai Feuerbach, ac eraill, mai dymuniad dyn yn gweithio ar wrthrychau natur, ac adweithiad y gwrthrychau hyn ar y dymuniad, oedd dechreu gwneud duwiau a'u haddoli. Ni cheir odid i neb o'r awdurdodau a gredant yn y dyn perffaith a dedwydd a ddarlunir yn Genesis, a newidiodd yr hen syniad am ddatguddiad oddiwrth Dduw i gryn fesur. "Os deilliodd crefydd," meddai Schelling, "o gyfryngdod ar ran Duw, yna rhaid i ni feddwl am ddyn, un adeg, fel creadur di-dduw, ac nis gallwn weled y modd i greadur o'r fath dderbyn datguddiad."

Bydd dilyn y damcaniaethau diweddar, a gynrychiolir gan Tylor, Spencer, Caspari, a Schultze, yn fanteisiol, yma, i weled beth a ddywedir, heddyw, am ddechreu addoli, ac am Natur Addoliad.

Yr Ysgol Eneidiol.

Tylor yw rhagredegydd yr ysgol newydd. Barna ef i grefydd gyfodi o ryw athroniaeth naturiol gwrs a briodolai fywyd i bob gwrthrych gweledig. Ymddangosai rhithiau i'r dyn bore mewn cwsg ; a thrwy freuddwydion a gweledigaethau, darganfu ynddo'i hun fath o enaid ar wahan i'w gorph. Trosglwyddwyd y syniad am enaid ynddo i wrthrychau eraill. Rhoddwyd eneidiau i anifeiliaid, a choed, a blodau, a daeth natur i gyd yn llawn o bethau byw ac eneidiol iddo. Yna cyfododd ysprydion. Wrth ysprydion, golyga Tylor eneidiau wedi eu rhyddhau o gaethiwed pren a maen a'r cyffelyb, ac yn byw bywyd rhydd, ystyrid rhai o honynt yn dda, eraill yn ddrwg, a cheisid eu ffafr drwy roddion. Dyma, medd ef, ddechreu addoli.

Ni fyn Spencer wahaniaethu rhwng eneidiau ac ysprydion. Cred, gyda Tylor, mai mewn cwsg a breuddwyd y cafodd dyn hyd i'w enaid, ond ni fyn gredu fod holl wrthrychau natur yn bethau byw gan y dyn cyntefig. Ysprydion yn unig oedd gan y dyn bore, medd Spencer, a chodasant hwy oddiwrth addoli'r meirw. Tylor, er hyny, yw'r awdurdod a ddilynir fynychaf, oblegid methir cyfrif yn briodol, drwy ddamcaniaeth Spencer, am y parch a delid i blanhigion a gwrthrychau meirw, fel yr haul a'r lleuad, ar gyfrif addoli'r hynafiaid.

Deil Caspari i grefydd ddechreu mewn addoli'r gwroniaid ymadawedig, a myn na chododd eneidiaeth Tylor hyd nes y darganfuwyd *tân*. Pan welwyd y gellid galw fflam allan o bren neu faen, cyfododd cred mewn elfenau a gwrthrychau anwel. Yn awr y dechreuodd ffetisiaeth, a dewiniaeth, a Natur Addoliad, medd Caspari. Yn erbyn hyn, dywedir fod Natur Addoliad yn ffynu yn mysg pobl heb ddarganfod tân, er nas gwedir fod gan dân le mawr yn natblygiad crefydd.

Barn Schultze yw i'r anwariaid boreol ddechreu addoli ychydig o wrthrychau materol. Bychan iawn oedd eu byd, a thalent barch i feini a bwâu, a phethau o'r fath. Wrth eangu eu byd, dechreuasant addoli mwy o wrthrychau, ac yna addoli ysprydion da a drwg.

Dyma fyr olwg ar yr 'Ysgol Eneidiol,' fel ei gelwir, a'i chred am Natur Addoliad a tharddiad addoli. Ar gyfer yr ysgol hon, gosodir

Yr Ysgol Chwedlonol

a gynrychiolir gan Max Müller. Gwir nad yw hon mewn cymaint bri ag y bu, a hyny, fe ddichon, oblegid beirniadaeth Spencer. Pa fodd bynag, ymddengys i lawer o hyd fel yn rhoi y cyfrif mwyaf boddhaol am darddiad Addoli Natur a gwrthrychau eraill.

Wrth olrhain dechreuad crefydd yn mhlith yr Ariaid (*Aryans*), cenfydd Max Müller bobl fore Asia ac Ewrop yn edrych ar Natur fel peth anfeidrol neu anherfynol ; ac y mae mewn dyn, eb ef, gyneddf sydd am gymuno â'r anherfynol hwn ('nihil in fide quod non ante fuerit in sensu'). Enynodd goleu'r haul ei gariad at bethau disglaer ; trefn natur ei syniad am

ddeddf a threfn ; llais cydwybod ei barch i ddyledswydd. Dechreuodd addoli Dyaus (=Zeus, Jupiter), tad y goleuni, wedi addoli'r haul, feallai, am gyfnod. Yna, dysgodd addoli'r ymddangosiadau disglaer, a dyhuddo'r ymddangosiadau tywyll. Effeithiodd anian a hinsawdd ar addoli. Yn y gogledd, aeth ysprydion ofnadwy'r dymhestl a'r daran yn dduwiau ; yn y de, ysprydion prydferth yr hin dymherus, y mynydd dymunol, a'r môr tryloew. O dan holl ddatblygiad crefyddol dyn, felly, y mae'r hyn a ddysgodd oddiwrth fyfyrdod yr hyn oedd ynddo ar y cread o'i gylch.

2. Cyfyngir y sylwadau dilynol i ddesgrifiad o Natur Addoliad a'i ddylanwad ar yr addolwyr. Ceir fod addoli natur, y nef a'r ddaear, yr haul a'r lleuad, y dwfr a'r tân, yn un o ffurfiau boreaf addoli. Cydnebydd hyd yn oed Tylor hyn, a cheir ef yn cyfrif Natur Addoliad fel y ddolengydiol rhwng Eneidiaeth ac Aml-Dduwiaeth. Anodd hefyd penderfynu'r gwahaniaeth sydd rhwng Natur Addoliad ac Eneidiaeth. Dichon fod Réville yn ei le wrth edrych ar y blaenaf fel addoliad o'r gwrthrychau naturiol fel y maent, a'r olaf fel addoliad o fyrdd o ysprydion a droswyd i bob ymddangosiad.

Beth bynag am hyn, ceir Natur Addoliad yn ei burdeb cysefin lle'r addolir yr haul a'r ddaear—tad y gwres a'r goleuni, a mam ffrwythlondeb. Datblygiad diweddarach oedd Dyaus a Demeter, duw a duwies welid y tu cefn i haul neu ddaear.

Ar ol haul a daear, daw dwfr, fel gallu mawr dinystriol neu gymwynasol. Rhenir ef wed'yn i'w ymddangosiadau. Addolir y môr, y llyn, yr afon, a'r tarddle ; ac yna, addolir duw neu dduwies y rhain, neu lawer o honynt. Daeth rhai o'r afonydd yn sancteiddiach na'r rhelyw. Rhoddid mwy parch i'r Alpheus yn nhir Groeg, i'r Ganges yn India, ac i'r Neil yn yr Aifft, nag i'r gweddill o ffrydiau dyfroedd. Gwyddai Cicero am ladd anifail fel dyhuddiant i'r môr am fordaith ddymunol, ac arosodd y ganwyll oleu, fel rhan o addoliad dwfr, hyd amseroedd diweddar.

Cymer y gwlaw le canol rhwng duwiau'r nef a duwiau'r ddaear. Offrymai'r Atheniaid weddi adnabyddus at Zeus am dano, fel un o is-dduwiau'r nen ; a gofynid am dano gan y ddaear drwy dywallt dwfr arni. Erys y *Dodola*, morwynion y gwlaw, o hyd yn mhlith y Slafiaid.

Fel y soniwyd eisoes,

RHODDIR I DAN LE PWYSIG

iawn yn mysg natur addolwyr. Dechreuodd ei fyd fel ellyll neu dduw ; ond yn fuan, cysylltid duwiau lawer âg ef. Soniai'r Groegiaid am Brometheus fel dygwr tân o'r nef, a deil Maori Zeland Newydd i adrodd stori gyffelyb. Cedwid tân aniffodd ar aelwyd teml y Capitol gan y *Vestals* Rhufeinig, a chan Forwynion yr Haul yn nhemlau Peru. Addolid y fflam gyneuedig gan addolwyr Agni yn India, a chyfeirid gweddiau at y tân yn hen Dân-Grefydd Persia.

Nid llai parch oedd i'r awyr a'i gwrthrychau. Ceir llyfrau chwedlonol yn heigio gan enwau duwiau'r awyr, y gwynt, a'r daran. Wodan y Teutoniaid yw'r mwyaf ei fri o'r oll. Ceisid dyhuddo'r storm a'r daran yn mhob rhyw ddull, ac o'r diwedd gwnaed Eolus yn geidwad cadarn y gwyntoedd. O'r awyr codai'r Sabëaid eu llygaid nid yn unig at yr haul, ond at leuad a ser, a cheir addoli'r lloer hyd heddyw yn mysg pobl anwar Brazil ac Affrica.

Ar ol dosbarthu gwrthrychau mwyaf y greadigaeth, dychwelwyd drachefn, ond odid, at wrthrychau llai. Daeth mynyddoedd a bryniau, os nad yn dduwiau, yn lloedd sanctaidd, ac yn drigleoedd y duwiau. Disgynodd prif dduwiau Groeg ar fynydd Olympus, a sonia'r Hen Destament am Dduw y Mynyddoedd. Cysylltai'r hen Ellmynwyr, medd Tacitus, ofnadwyaeth addolgar wrth yr allt. Yno y trigai duw'r genedl ('secretum illud quod sola reveventia vident').

Yn wir, ceir addoli coedydd sanctaidd, a phrenau unigol, lle bynag y tyfant. Yn ngweddillion Sanchoniaton (a gedwir yn Eusebius) olrheinir addoli prenau yn ol i'r dynion cyntaf. Dywedir iddynt addoli'r coed a roe iddynt gynaliaeth. Tadogir rhyw gyfriniaeth i gwynfan y gaeafgoed, a thybir fod Schelling yn ei le pan ddywed am y dynion bore eu bod yn cael bywyd yn cysgu mewn ceryg, yn breuddwydio mewn planhigion, yn haner-effro mewn anifeiliaid, ac yn effro mewn dyn.

Deil Schwarz nad y coed ynddynt eu hunain a addolid, eithr y pren dwyfol a ddangosid drwyddynt—y pren dwyfol a wneid i fyny o gymylau, ystormydd, a goleu. Cefnogir ef gan y chwedloniaeth Deutonaidd a eilw'r cymylau'n ddail y pren, pelydrau 'r haul yn ganghenau, a'r ser yn ffrwyth.

Eraill a fynant nad addolid coed ond fel arwyddion o fywyd creadigaeth Duw yn ymddangos yn natur. Dangosir hyn, meddant, gan y ffaith mai'r prenau bythwyrdd oedd beunydd bron yn sanctaidd. Cyfeirir at y ferywen, y gypreswydden, y balmwydden, a'r bomgranadwydden ; er hyny, ceir y dderwen o hyd yn gysegredig i'r duwiau, fel arwyddlun nerth. Mŷn Robertson Smith fod cysylltiad anatodol rhwng dwfr addoliad a phren addoliad yn nghrefydd y Semitiaid.

Tra na thyfai pob coed yn mhob rhan o'r ddaear, ceid meini, a meini cysegredig, drwy bedryfan byd. Nis gall addoli maen fod yn beth diweddar. Mwy tebyg ei gychwyn yn yr Oes Faen. Erys yn mhlith anwariaid Môr y De, Canolbarth Asia ac Affrica, yn nghyd a thiroedd y Ffiniaid a'r Sapiaid. Ceir meini cysegredig yn dra niferus yn India. Sonir am dano drachefn a thrachefn yn yr Hen Destament, a thelir gwarogaeth i'r Kaabar yn Mecca, hyd y dydd hwn. Gwyddom am *Lithoi argoi* y Groegiaid, ac am y deng maen ar hugain a addolid yn Pharae (Pausanius vii. 22). Ceir yr Eglwys yn y canoloesau yn deddfu yn erbyn maen addoliad yn Ffrainc a Phrydain, ac hyd heddyw telir

GWAROGAETH I FEINI CYSEGREDIG

yn Iwerddon a Llychlyn.

Cynwys yr addoliad oedd cyflwyno anrhegion i'r meini, eu golchi â dwfr, neu âg olew neu ymenyn (*cf.* Esa. lvii. 6), a gofyn am roddion ganddynt. Ar heolydd peryglus, ceir twr o feini, ond anodd yw egluro ystyr pob defod ac arfer.

Tebyg yr aberthid i'r meirw ar y bedd-feini, ond cyfnewidiwyd meini'r Gair i fod yn feini coffadwriaeth o gyfamod neu beth cyffelyb. Daliai'r Rhufeiniaid o hyd i wneud llw ar enw Jupiter Lapis, a sonia Servius am ryw faen fel 'antiquum Jovis signum.'

Mynodd rhai egluro Maen Addoliad drwy'r parch a delid i ffiniau neu derfynau tir, a cheir y Rhufeiniaid yn addoli Terminus, fel duw. Eraill a ddywedant mai oddiwrth uchder y maen, fel arwyddlun o'r mynydd—preswylfa'r duwiau—y tarddodd yr addoliad. Cysyllta eraill y tân oedd yn y maen â'r parch a delid iddo. Tra y dywed eraill fod y ffigyrau neu'r marciau a geid ar y meini yn cynyrchu'r parch.

Gwelir, bellach, drwy'r holl ymdriniaeth ystyr y dywediad mai

'CREFYDDOL FILYN YW DYN.'

Fel bôd terfynol, yn nghanol torf o ymddangosiadau synfawr, dechreuodd gymdeithasu â gwrthrychau tu allan iddo, neu eu heddychu drwy offrwm ac aberth. Clwyfwyd ef yn fynych gan ei eu-gred, a rhwystrwyd ei ddatblygiad aml i dro ; ond dysgodd ei brofiad iddo lawer gwers ddefnyddiol, ac ni cheir dim sydd effeithiolach offeryn i gyfnewid a pherffeithio dynion, na chrefydd yn ymburo. Gwir yw'r gair a ddywed "y rhai a'u gwnant ydynt fel hwythau," a gwireddir ef beunydd yn hanes anwariaid ; ond lle y ceir awydd am oleuni, atebir ef o hyd fel gan oleuni oddi fry ; megys y dywed

Keble am feirdd tir Groeg: "And sight beyond their sight to those high bards was given."

Er nas dechreuodd dyn gyda'r wybodaeth glir am Dduw a dadogwyd genym iddo, am lawer oes, awgrym yr hanes yw i yspryd yr Arglwydd symud ar dryblith ei feddyliau, ac esgor iddo ar greadigaeth newydd, yn nghyflawniad yr amseroedd. Bychan a wyddai Salmwyr Israel mai 'hyny a fuont hwythau' rywbryd, tra, yn awr, yn gwawdio'r eilun dduwiau a'u haddolwyr. Trowyd wyneb rhai o'u harweinwyr at y goleu; ymwrthodasant âg anfadwaith y Canaaneaid; deallasant mai'r Arglwydd, ac nid Baal, oedd Dduw; a dygasant laweroedd i gerdded yn eu ffordd.

Dysgodd eraill y wybodaeth am Dduw Israel, a blodeuodd pob crefydd yn yr Iesu. Yn ei oleuni ef y gobeithiodd y cenedloedd. Daeth gwawr dros yr hen oesoedd; a gwel hyder Crist'nogol y wybodaeth berffaith am yr un Duw wedi cyfnewid y byd, ac ewyllys yr Arglwydd wedi ei gwneud 'megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.

GWILI.

CLADDU YNTE LLOSGI—PA UN?

Y mae'r pwnc, Beth i'w wneuthur â chyrff y meirw yn rhwym o ddyfod cyn hir yn bwnc llosgawl cymdeithas, ac er lles cyffredin y cyhoedd, goreu po gyntaf y rhoddir ystyriaeth briodol iddo. Nid oes angen haner llygeidiad i weled fod y meirw yn gyflym yn cymeryd meddiant o'r tir sydd eisoes yn rhy fach i angenion y byw. Cynyddu mae'r boblogaeth tra mae'r tir angenrheidiol i'w cysur a'u bodolaeth yn graddol fyned yn llai.

Cydnabyddwn fod yna ddyledswydd yn mherthynas i weddillion y meirw, a'r pa fodd i gyfarfod a'r ddyledswydd hono heb ar yr un pryd esgeuluso'r ddyledswydd fwy at y byw sydd bwnc mawr.

Dyry Pythagoras, y Groegwr enwog, yr awgrym hwn fel rheol gyffredin ymddygiad, Dewiswch y llwybr hwnw fo'n unol a gofynion Natur, a chewch allan wrth ymarfer ag ef, mai efe yw y llwybr goreu. Ond sut y deuwn i wybod beth yw gofynion Natur? Meddyliwn am y creadur direswm. A wyddis beth wna hwnw a'i filoedd sydd yn marw bob blwyddyn? Anfynych fel y deallwn y deuir o hyd i gorff marw ysgyfarnog, neu gwningen, bran neu ysgythan. A meddyliwn am gyntefigion dynoliaeth, Beth wnaent hwy? Ychydig help rydd hanes i benderfynu'r mater. Yn ol yr hen Ddr. Johnson, ni rydd hanes, fel y mae ar ddu a gwyn, nemawr ddim am drigolion Prydain Fawr cyn dyddiau Iwl Caisar, na dim o gwbl am yr hyn a wnaent a chyrff y meirw. Gallwn feddwl fod Paley o gyffelyb farn, gan ei fod yn ei lyfr nodedig ar *Natural Theology*, wrth son am ddyn yn croesi y rhos ac yn codi careg yn ei law, yn methu cael ynddi 'r un copinod o'i hanes. Mor wahanol oedd llygad Shakespeare, yr hwn, er ei fod yn byw lawer yn foreuach, a welai "dafod yn y goeden, llyfr yn y nant rhedegog, pregeth yn y gareg, a da yn mhob peth." Fe wel y gwyddonydd heddyw fwy nag a dybiai Dr. Johnson yn bosibl. Ebe Robert Collyer, Pe'r elwn a dant wedi ei dori o'r graig galch i'r Proffeswr Rd. Owen, fe dynai lun y

creadur fu'n defnyddio'r dant, er i hwnw fod y tamaid cyntaf a'r unig damaid welwyd erioed gan lygad dyn o hono—creadur a fu farw ddeng mil o flynyddoedd cyn geni y dyn cyntaf.

Fe fedr y daearegydd heddyw olrhain hanes crofen y ddaear dros amser nad oes mesur arno—y blynyddau yn rhedeg i'r miliynau na wyddis pa nifer. Fe orfodai Syr Charles Lyell bob haen o'r creigydd i draethu rhywbeth o'i hanes iddo, a nodai allan fel yr oedd bywyd o'i ymddangosiad cyntaf yn yr haenau is yn graddol ymddadblygu o'r ffurfiau symlaf, o haen i haen, nes dyfod at ymddangosiad dyn, yr hwn oedd yn ei farn ef yn byw ar lanau'r Tafwys driugain mil o flynyddau'n ol, ac yn ogofau Gwyr yn Morganwg, chwe ugain mil o flynyddau'n ol, pan oedd y mammoth, yr elephant gwlanog, y rhinoceros, hippopotamus, &c., yn gymdeithion iddo. Yr oedd hyn oll cyn bod son am lyfrau na llythyrenau o fath yn y byd.

Y mae olion presenoldeb dyn ar y ddaear wedi cael sylw manwl gwyddonwyr a chasgliadau pwysig a diamheuol wedi eu tynu oddiwrthynt. Ni ellir manylu dim gyda golwg ar fesuriad amser, na son dim wrth fesur blynyddoedd; yn hytrach rhenir amser yn gyfnodau meithion—cyfnodau yn meddu nodweddion neillduol, ond yn rhedeg fwy neu lai i'w gilydd. Y mae'r LLAW wedi bod erioed yn offeryn gwerthfawr i ddyn ar lwybr ei ymddadblygiad. Fel y dywed y bardd,—

"Hynod a pharod offeryn,—cynydd
Amcanion y coryn,
A phenaf urdd llafur-ddyn
Yw'r llaw deg, mawr allu dyn."

Y coryn (y pen) o hyd, wrth gwrs, yn rhoddi cyfeiriad i'r corff. Ni wyddis dim pa mor foreu y gwawriodd ar ddyn y gallai ychwanegu at allu y llaw drwy ddefnyddio offer (*tools*). Yr oedd hwnw yn gam pwysig yn ei hanes. Nid oes yr un creadur arall hyd heddyw a fedr ddefnyddio offer, oddigerth yr offer y mae Natur wedi ei ddonio â hwy,

"Natur a wnaeth, iawn ytyw,
Ei ran ar bob anian byw,
I'r cadfarch dihafarch-wych
Carnau a roes, cyrn i'r ych, &c.
—*Goronwy Owen.*

Hawdd casglu mai syml a thrwstan oedd offer y dyn ar y dechreu, a thebyg mai o ddamwain ac nid o fwriad y daeth o hyd iddynt; yn debyg fel y gwna'r plentyn bach pan gymer y gareg nesaf i law er cael y cnewyllyn yn y gneuen, neu'r cocos yn y cregin. Tebyg mai o'r cyfeiriad hwn y daeth y syniad cyntaf o'r morthwyl, a chyda help y morthwyl yn mhen amser y dysgwyd hollti'r maen cellt (*flint*) a gwneuthur bwyeill, ac offer awch eraill. Geilw'r gwyddonwyr y cyfnod hwn yn Oes y Gareg, a dosberthir ef i'r hen a'r newydd, neu'r Palaeolithic a'r Neolithic—yr olaf yn dynodi adeg pan oedd llawer o gaboli a gwella wedi bod ar yr offer. Gelwir yr ail gyfnod yn Oes y Pres, neu yn hytrach y Bronze,* a'r trydydd yn Oes yr Haiarn—enwau wedi eu cymeryd oddiwrth yr offer neu'r arfau mewn arferiad ar y pryd.

Ond rhag anghofio'r pwnc—Beth wnai cyntefigion y cyfnodau hyn â chyrff y meirw? Mae'n bosibl nad amcenid ar y cyntaf at ddim ond cuddio'r corff o'r golwg; ond yn ddiweddarach cawn fod mwy o sylw yn cael ei dalu i'r gweddillion; cleddid hwy gyda gofal mawr; yr oedd rhyw fath o syniad o anfarwoldeb wedi gwawrio arnynt, a thybid y byddai'r bywyd dyfodol rywbeth nid anhebyg i'r hyn yw y bywyd presenol, ac yn yr argyhoeddiad hyny fe ddodid gyda'r corff y cyfryw bethau a allent yn eu tyb hwy fod yn ddefnyddiol—prif angenrheidiau bywyd, gydag arfau i'w sicrhau, o'r awyr, o'r mynydd ac o'r môr. Erys hyd heddyw ar hyd ein mynyddoedd lawer o hen gistfeini

* Metel cymysg o gopr a thin yw Bronze, cymysg o gopr a zinc yw pres.

fuont un amser yn gwasanaethu fel lleoedd claddu. Fe'u ceir yn fynych o dan hen garneddi. Maent yn hollol wag yn awr heb yr un llwchyn ynddynt. Cofiwn weled agor un—Ebrill 6, 1889—ar y mynydd rhwng Aberdar a Merthyr. O dan y garn gerig yr oedd cist, rywbeth ar lun box trafaelu, tua phedair troedfedd a haner o hyd wrth ddwy a haner o led a thua'r un faint o ddyfnder. Yr oedd y cist yn rhy fyr i'r corff orwedd ar ei hyd ynddo, a chasgliad rhai yw y gosodid ef yn fwriadol yn ei gwrcwd—sefyllfa'r plentyn yn y groth—yn barod i'w enedigaeth i'r byd newydd hwnt i'r bedd.

"Mae'n amlwg y credai'r hen Brydeinwyr mewn cyflwr dyfodol oddiwrth y pethau hyny a geir yn barhaus yn ymyl y meirw, nid yn unig arfau, offer, ac addurniadau personol, ond hefyd llestri y gellir tybied eu bod yn cynwys bwyd a diod. Mae'n amlwg hefyd oddiwrth yr un dystiolaeth fod eu syniadau yn nghylch y cyflwr dyfodol yn isel a diraddiol iawn."—(Dr. Wilson).

Pa faint o amser basiodd rhwng holltiad y cellt (flint) cyntaf a moldiad cyntaf yr offer Bronze y mae'n anmhosibl dywedyd, ond gwyddys hyd at sicrwydd fod dynion yn defnyddio'r Gareg o flaen y Bronze, a bod rhai llwythau yn parhau i fyw yn nghyfnod y Gareg pan oedd llwythau eraill wedi darganfod gwerth y metel-oedd. Y mae'r tri chyfnod* yn rhedeg un i'r llall yn debyg i dri phrif liw yr enfys. Llosgi'r corff, fodd bynag, oedd yr arferiad yn y Cyfnod Bronze. Ceir gweddillion yr arferiad o bryd i bryd yn y ffurf o lestr pridd (urn) gyda lludw'r corff ynddo.† Rywbryd yn Nghyfnod yr Haiarn dychwelwyd at yr arferiad o gladdu'r corff—ei gladdu yn ei hyd. Gwnaed hyn feallai dan ddylanwad Cristnogaeth, ac yn y gred o adgyfodiad y corff.

Gofyniad naturiol a chyffredin yw, Beth yw addysg y Beibl ar y pwnc, ac yn ateb cawn ei fod, fel y gellid dysgwyl yn amrywio mewn gwahanol oesau. Mae rhywbeth naturiol yn yr hen ymadroddion—hunodd gyda'i dadau, ei gasglu at ei bobl, myned i dŷ ei hir gartref. Methai'r Iuddew hefyd a gollwng gafael ar ei anwyliaid—Tŷ, cartref, oedd y Bedd. Cymharer "Bedd" a'r "Beth" Hebreig—Bethel, tŷ Dduw; Bethania, tŷ'r tlodion; Bethlehem, tŷ'r bara. Sylwer hefyd ar Bwth, bwthyn, a'r Saesneg *Booth*, a gwelir perthynas amlwg. Hebryngai'r Iuddew ei feirw "adref," a gosodai mewn man cyfleus y pethau oedd angenrheidiol iddo yn ei sefyllfa newydd. Onid adgof o beth tebyg yw arferiad y Pabydd o osod gwahanol bethau yn yr arch (coffin)? Os credai'r hen bobl hyn bethau plentynaidd, ni chredent mewn dim mor afresymol a chreulawn ag uffern y credoau poblogaidd.

Dibynai dull yr Iuddew o gladdu ar ffasiwn y dydd, ac nid ar orchymyn dwyfol tybiedig. Ar un adeg yr oedd llosgi'r corff yn amharch; o amharch y llosgwyd corff Tamar, Genesis 38 : 24. O'r tu arall llosgwyd corff Saul a'i feibion i'w hachub rhag amharch mwy. Yn ddiweddarach aeth *peidio* llosgi'r corff yn anmharch. Anrhydeddu Asa wnaed wrth losgi ei gorff. Dyna'r ffasiwn wedi'n. 2 Chron. 16 : 14; 21 : 19; Jerem. 34 : 5; Amos 6 : 10. Ar ol y gaeth-

* Dyry Hugh Miller (Sketch Book, p. 4, note) ddyfyniad sy'n egluro'r sefyllfa: — "Rhwng Lough Ree a Lough Derg nid oes ond un man lle y croesir rhyd y Shannon ac yno yr arferai'r hen frodorion drigianent y ddau tu i'r afon gwrdd â'u gilydd, ac fel yr ymddengys yn fwy mynych er mwyn rhyfel nag er mwyn heddwch. O wely'r afon yn y fan hono yr ydys wedi cloddio wmbredd o arfau ceryg ac arfau bronze—yr arfau bronze i gyd yn yr haen uwch a'r rhai ceryg yn yr haen is; gan ddangos fod cyfnod y Bronze yn ddiweddarach na chyfnod y Gareg."

† Ai adsain o'r arferiad yw'r ymadrodd yn y Llyfr Gweddi Gyffredin: "Daear i'r ddaear, pridd i'r pridd, lludw i'r lludw."

glud aeth y teimlad yn gryf yn erbyn llosgi'r corff.

Yn wyneb hyn oll, cymerer a ganlyn i ystyriaeth. (1) Y difa parhaus ar ein tir. Lle byddo poblogaeth o 50,000, cyfrifwn fod yna tuag erw o dir yn myned bob blwyddyn i feddiant y meirw.* (2) Cymer Natur y mater mewn llaw yn gynar neu yn ddiweddar. Megys yn y Dwyrain gynt, felly y bydd yma, presenoldeb cynifer o gyrff meirw yn anmhuro'r awyr, yn llygru a gwenwyno ein ffynonau dwfr, ac yn dwyn heintiau a phlaau i ladd y miloedd, a gyru'r gweddill i geisio am le mwy hawdd i fyw ynddo.

Yn wyneb hyn, y peth mwyaf naturiol a mwyaf effeithiol i osgoi'r canlyniadau fydd dwyn yn ol yr hen ffasiwn o losgi'r corff, a'i wneuthur eto yn ffasiwn newydd. Wrth gwrs, fe fydd yna wrthebion pwysig. Cofiaf fy hunan glywed un o Gynghorwyr Trefol Caerdydd yn darllen papyr yn ffafr corff-losgiad yn nghapel Westgrove, ac imi ddweyd fod fy rheswm yn myned gydag ef bob cam ond fy nheimlad yn pallu dilyn. Felly y bydd yn y cyffredin nes newid y ffasiwn.

Nid oes yr un rheswm â dim pwys ynddo yn erbyn corff-losgiad. (1) Ni fydd eisieu'r hen gorff arnom yn y bywyd newydd. Bydd llawer yn falch i gael gwared o hono. Cofier nad y corff sydd yn gwneuthur y dyn. Pan fydd y corff o bridd yn dychwelyd i'r pridd, bydd yr enaid, sef y dyn—yn "y corff a fydd" yn esgyn allan o'r hen gorff i'w gorff newydd, i'r "ty nid o waith llaw," &c. Bydd wedi gorphen a'i hen gorff ac ni fydd ei eisieu arno mwy. Gwell yn mhob ystyr fydd ei losgi, bydd yn fwy rhesymol, yn fwy iach, yn fwy cyson a gofynion natur a lles y cyffredin na'r hen ddull. (2) Y mae yna deimlad o chwithdod wrth feddwl am y llosgi, yn naturiol. Chwith hefyd meddwl am y claddu. Ond gwell dybiaf y deubwys o ludw glan nag awgrym geiriau'r emyn—"Y corff yn llawn o bryfaid byw," &c. (3) Gwrtheb arall a ddygir gerbron yw yr anhawsdra, pe llosgid y corff, i gael allan pa un a gafodd y marw ei wenwyno neu gamchwareu mewn rhyw ffordd arall, neu naddo. Gallwn adael hwnw i ystyriaeth yr awdurdodau pan fydd galw am hyny.

R.J.J.

* Yn Bornou, "cleddid pob un dan ei lawr ei hun, tra'r teulu yn parhau i fyw yn yr un fan." Y gwyr bôn yn unig allent fforddio gadael y ty i'r meirw a myned i fyw i le newydd. Yn New Zealand gedid y ty a'i holl gynwys at wasanaeth y meirw, fel yr oedd mwy na haner ambell i bentref yn gwbl yn eu meddiant.

TREM AR LYDAW.

I.

Mor a Glan.

Dim ond trem frysiog a gefais ar wlad hyfryd Arfor; eto dichon i hanes tro brysiog fel hyn fod o ddyddordeb i'r Cymry ddigwyddant ddarllen y tudalenau hyn.

Y mae'n foreu hyfryd yn niwedd Gorphenaf, ac yr ydym ar gychwyn o borthladd mawreddog Plymouth, ar yr *Antelope*, llong berthynol i Gwmni'r *Great Western Railway*. Y mae pawb mewn yspryd llawen, y gwyr yn ysmygu *cigarette* gyntaf y boreu, y gwragedd yn chwilio am ystolion i eistedd yn ngwyneb haul a

llygad goleuni, y plant yn rhedeg yma a thraw yn llawn anesmwythyd dyddorus ieuenctyd ; yr unig helbul ar neb ydyw'r ofn na ddel yr ysgrepan i fwrdd y llong cyn caniad yr *hooter;* yn wir gwelaf un cyfaill a'i fag ar ol. Ond amser gwyliau ydyw, ac nid yw Ffrainc yn brin o grysau glân am brisiau rhesymol. Y mae awel bur, haul gwengar, a rhagolwg gwyliau llawen yn cuddio pob pechod, ac yn galluogi dyn i gymeryd golwg athronyddol a chariadus ar bob un o frychau bywyd.

Ond dyna floedd fyddarol y *siren*, dyma'r glenydd yn dechreu troi o'n cylch, wele ni'n pasio'r *pier* ardderchog, wele longau rhyfel melltigaid a chyflegrau yn estyn eu trwynau mileinig allan o'u hystlysau dur ; wele graig yr Hoe yn graddol gilio'n ol ; dacw'r glanau gwledig draw yn codi'n dlysion uwch glesni'r dôn ; dyna dai gwynion Plymouth yn gwenu draw ar haul y boreu ; y mae glanau Lloegr yn lledu o'n hol yn y pellder, a'r môr yn eangu o'n blaen, ac ambell i gaseg wen yn ymgodi yma a thraw ar ei wastadedd crych-las.

Am awr neu ddwy yr ydym yn llawn hwyliau, yn ymgomio, yn ysmocio, yn chwerthin, yn dyweyd ystoriau, a chwerthin eilwaith. Wele dŵr o foneddigesau o Gymru, yr ydym yn adnabod rhai o honynt, ac y mae Ioan o'r Gogle' yn fuan wrth ei fodd. Y mae Ioan yn fachgen dyddorol a hapus, ond yn fil mwy felly yn nghanol cwmpeini o'r rhyw deg.

Y mae Dafydd Jones, yntau mewn hwyl dda ; rhydd ambell i dro er mwyn cael mwy o awel, ac ambell i dreigliad er mwyn gweled yr haul yn well, ac ambell waith egyr ei safn yn gellweirus gan wenu, ac weithiau chwerthin yn uchel, gan ddangos ei ddanedd gwynion, a rhywfaint o dwll ei wddf. Y mae'r gwragedd yn llai siaradus, y plant yn llonyddu ; ac un ar ol un cymer y gwyr lyfr neu newyddiadur o'u llogellau, a darllenant mewn distawrwydd.

Y mae'r llong yn rhoddi ambell i naid, a dacw hen wr fan draw yn ei hyd ar y dec ; yna try'r *Antelope* ar ei hochr, gan newid eilchwyl i'r ochr arall, a dacw "ledi" fan draw yn bendramwnwgl oddiar ei 'stol. Y mae'r boneddigesau o Walia wedi gado Ioan o'r Gogle' fel pererin wrth ei hun.

Y mae'r tir wedi myn'd o'r golwg, 'does ond cychod pysgota yn y golwg, ag eithrio agerlong draw ar y gorwel, a rhuban hir pyg-ddu yn ymgripian o'i hol. Y mae'r gwylanod yn 'hedeg uwchben a'r morfoch yn ymrolio odditanom ; y maent yn gall yn eu cenedlaeth, eisoes y maent yn derbyn eu gwobr am hir amynedd.

Un ar ol un y mae'r gwyr a gwragedd a phlant yn ymneillduo i barthau isaf y llong, neu i gilfach lonydd ar y bwrdd, a'r rudd yn welw a'r fynwes yn anesmwyth. Hynod mor ddistaw ydyw pawb oddigerth y cadben a'r dwylaw. Dacw'r *mate* yn magu'r baban ; y mae'r fam yn rhy analluog i ofalu am dano. Y mae'r swyddog mor fedrus gyda'r plentyn fel mai hawdd y credaf ef pan y sisial wrthyf, "*I've got eight on 'em meself at 'ome.*"

Oes, y mae tyrfa wedi ymneillduo, a da fuasai gan rai o honom ar y bwrdd pe bai ereill wedi gwneud yr un modd. O'r ugeiniau oedd ar y bwrdd dim ond dau neu dri gymerasant ginio haner dydd.

Ond, dyna ddigon. Hyfryd yw'r môr, a rhodio'n mraich y gwynt, ie, tra barddonol yw agwedd y weilgi—os bydd y fron yn iach. Waeth beth fo'r byd oddiallan, os na bydd y fynwes oddimewn yn y cyflwr iawn. Rhyfedd ac ofnadwy y'm gwnaed !

Y mae'n chwech o'r gloch yr hwyr, y ffurfafen yn niwlog, a'r môr yn llonyddach ; y mae ambell un o'r cryfaf yn ail-ddechreu rhodio ar y bwrdd. Y mae ychydig bryder ar wyneb y teithwyr fod y llong wedi myned allan o'i chwrs yn y ffog. Fel rheol, nid oes ofn gwynt ar y morwr : y niwl yw ei elyn penaf. Y mae ystorm yn dyfod yn agored i ruo yn ei wyneb, ond am y niwl, deua'n llechwraidd o'i ol, dalla ei

lygaid, a chyn y gŵyr b'le i droi, y mae'r graig flaenllym wedi gwanu ystlys ei long, a'r dòn lechwraidd yn rhuthro i'w ddinystr. Y mae'r *siren* yn canu bob ychydig o funydau yn barhaus. Y mae ambell i ddynes a dychryn ar ei gwedd sydd eisoes ddigon llwydaidd wedi dydd o selni.

Ond dyna oleudy ar y dde, y mae'r morwyr yn ei adnabod yn dda; a dacw greigiau daneddog ar y chwith, ond sicrheir i ni ein bod yn ddiogel weithian. Nid ydym ond ychydig latheni allan o'r cwrs. Yn fuan byddwn o fewn hafan Brest. Y mae'r tonau wedi llonyddu llawer, ac y mae ysprydoedd y teithwyr yn codi. Y mae yfed tê cyffredinol ar y bwrdd; a phawb yn dechreu meddwl am eu *luggage*. Yr ydym yn ngwddf hafan ardderchog prif borthladd Llydaw. Drwy'r niwl gwelaf gyflegrau duon yn syllu allan i'r môr o ben y bryniau ac o ddirgelion mynwes y graig. Diffynfa gadarn yw Brest; ond dywedir wrthyf fod y ffaith y gellir gweled y *cannon* yn ddigon prawf nad yw llawer o'r amddiffynfeydd o'r patrwn diweddaf. Ond wele ni o fewn i'r harbwr, yn pasio heibio llongau lu, yn cynhwys llongau rhyfel yn perthyn i amryw genhedloedd, America a Japan yn mhlith ereill.

Ond wele'r morwyr yn frysiog gyda'r rhaffau, a'r teithwyr gyda'r *bags*, a dyna ni wrth y lanfa. Y mae ar y cei luoedd o wyr yn gwaeddu am gael ein cynorthwyo, ac yn ceisio'u goreu glas i dynu ein sylw, lawer o honynt mewn Saesneg sâl, ond dealladwy. Ond yr ydym yn edrych am y *'bus* sydd yn perthyn i'r *Hotel Moderne;* gwaith yr ydym wedi trefnu llety 'mlaen llaw.

Y mae'r gwlaw yn disgyn yn drwm; ceir llawer o dywydd gwlyb yn Llydaw, ac yn enwedig yn Brest.

Yn fuan cawsom y *'bus* a'i yriedydd mor wyllt ac *excited* a phe na buasai wedi bod yn gyru neb erioed o'r blaen. Siaradai Saesneg bratiog, Ffrancaeg wrth gwrs, a Llydawaeg hefyd, ac er ein syndod dywedodd ei fod yn siarad Cymraeg, "*Tipyn bach.*"

Buan cyrhaeddasom y gwesty penodedig, tŷ mawr o uwchder pedair lofft. Pobl serchog yw'r Ffrancod. Nid "*stiff, cold, respectable reception*" y Sais geir ganddynt; ond y maent yn wyneb-agored, ac o galon agored, a gwên a gair ganddynt i bawb.

Enw gwr y tŷ oedd V. Branellec, Llydawr serchog dwy-ieithog, gyda Llydawes lon ddarbodus o wraig. Pan ddechreusom siarad cymysgedd o Gymraeg a Llydawaeg â hwynt yr oedd eu dyddordeb mron yn ddibendraw.

"Amzer fall a ra" (tywydd gwael ydyw.)

"Ia, ia, amzer re fall a ra," (re fall—gwael iawn).

Ac yna caem ffrwd o iaith ei wlad gan M. Branellec, y fath lifeiriant yn wir, fel ag i'n dallu'n hollol; ac yna siaradai'n fwy araf a syml gan gyfieithu i'r Ffrancaeg yma a thraw.

Ond y mae'n saith o'r gloch, ac arogl hyfryd ciniaw yn hofran allan drwy ddor yr ystafell fwyta. Wedi dydd o ympryd gorfodol ar y môr, yr oeddym oll yn barod i gael tamaid blasus, a rhaid cyfaddef i ni gymeryd ychydig o'r "gwin rhudd" er mwyn ein mynych wendid. Ond rhaid fod mynwes dyn yn dra gwan cyn y metha wneud cryn gyfiawnder ag un o giniawau Llydaw. Y mae pobpeth mor lân, mor ddeniadol ac mor chwaethus. Y mae'r bwrdd wedi ei "osod" at giniaw yn gelfwaith ynddo ei hun. Ac er amled y newid o'r platiau nid oedd raid aros dim, yr oedd y *waiter* Llydewig a'i lygad arnom ar unwaith, a'r ddysgl nesaf yn cael ei gosod o'n blaen yn ddioed.

Ond, yr ydym wedi gorphen ciniaw, ac y mae'r galon wedi llawenychu i radd uchel, a'r gwlaw hefyd wedi lleddfu llawer. Y mae genym amser a thuedd i gael golwg ar y dref. Fel hyn y desgrifir hi gan lawlyfr lleol:—"Brest, yn ol ystadegau sydd dref forwrol fawr, a'i phoblogaeth yn bedwar ugain mil. Y mae yn newydd, wedi ei hadeiladu yn dda, yn llawn digrifwch a bywyd, weithiau ychydig yn ormod felly; a

saif ar ddwy-lan, wrth enau yr afon Penfeld, yr hon a ffurfia'r porthladd, ac a rana'r dref yn ddwy ran wahanol; Brest briodol (yr ochr chwith) a Recouvrance (yr ochr dde). Y mae'r *Gulf Stream* yn gwneud y tywydd yn fwyn, ac yn y gymydogaeth, yn ardal Plougastel tyfir pys gwyrddion a syfi (*strawberries*) lawer yn gynar yn y gwanwyn."

Y mae olrhain enwau yn neillduol o ddyddorol yn Llydaw, gan y ceir fel rheol debygolrwydd mawr rhyngddynt a geiriau Cymreig.

Dywed rhai i Brest gael ei henw oddiwrth Bristoc, un o freninoedd yr hen Frythoniaid. Ereill fynant mai o *Breiz* yr enw brodorol am Lydaw y tardd. Ond yr esboniad mwyaf tebygol yw mai talfyriad o *Beg-rest*, hyny yw, "Pig-y-coed" ydyw; gan fod yma hen allt yn bodoli oesau'n ol, ac ar flaen yr allt hon y codwyd y dref gyntefig.

Desgrifir y lle'n aml fel tref heb ddim neillduol o Lydewig yn perthyn iddi. Dichon fod hyny'n wir mor bell ag yr êl agwedd allanol, ond synwyd fi'n ddirfawr gan nifer y bobl siaradent Lydawaeg yn Brest. Yn wir nid oedd na siop na *café*, na thŷ o fath yn y byd na cheid rhywun yno fedrai siarad Llydawaeg, a hyny gyda'r un rhwyddineb ag y siaradent Ffrancaeg. Pa nifer o siopau geir yn Nghasnewydd, neu hyd yn oed yn Abertawe, lle y siaredir Cymraeg yn ogystal a Saesneg?

Yn y gwesty yr oedd amryw o'r *waiters* yn siarad Llydawaeg yn llawer gwell na'r iaith estronol; a mawr y difyrwch a'r syndod a gaent i'n clywed yn enwi pethau, fel y tybient yn iaith eu bro:—"bara, gwin, ymenyn (aman), dwr, llaeth (laez), &c." Ond buan iawn yr aent tuhwnt i'n dyfnder, ac ni wyddem ar glawr daear am beth y llefarent.

Amlwg oedd, fodd bynag, ein bod wedi tynu sylw arbenig y bechgyn Llydewig hyn; ac yn wir bechgyn braf oeddent, fel pe baent yn dod o ganol Sir Gaerfyrddin neu Aberteifi. Gallem ddychmygu eu clywed yn siarad Cymraeg glân gloew.

Yn unig maent yn llawer mwy moesgar na'r Cymry; ofnwyf mai moesgarwch neu ddiffyg moesgarwch y Sais sydd genym ni hyd yn oed ar fryniau Gwalia. Ond y mae'r un dull gweddus, syber, a serchog gan y Llydawyr p'le bynag y cyfarfyddwch â hwynt. Tynant eu hetiau i chwi, ac i'w gilydd, ac atebant eich cwestiynau bob amser yn foneddigaidd.

Y mae'r Cymro yn naturiol serchog a moesgar, fel ei gefnder y Gwyddel, ac yn wir mae'r holl dylwyth Celtaidd felly; gormod o ddynwared y Sais sydd yn ffynu yn ein plith. Y mae dilyn y Saeson yn burion peth yn eu rhinweddau, ond yr ydym yn rhy barod i'w hefelychu yn eu ffaeleddau hefyd—a'u diffyg moesgarwch yw un o'u ffaeleddau mwyaf.

Pan yn aros yn Morgat (rhof ragor o banes y lle eto), daeth dau Sais o Plymouth i fewn i'r gwesty a chanddynt lythyr i ddwy foneddiges Seisnig oddiwrth berthynas iddynt oedd offeiriad. Wedi cryn helbul i chwilio am y Saesnesau (gwaith ychydig o Ffrancaeg feddai'r ddau Sais) cafwyd o hyd iddynt. Derbyniasant y llythyr, diolchasant yn oeraidd i'r ddau ddygiedydd, ac er aros yn yr un gwesty ni chymerasant sylw pellach o'r ddau oedd wedi gwneud y caredigrwydd a hwynt. Yn wir y mae *prim and proper respectability* ambell i Saesnes o'r dosbarth canol yn ddigon i godi cyfog ar unrhyw ddyn yn ei synwyrau priodol.

Y mae Brest yn yr hwyr yn llawn bywyd a llawenydd fel holl drefi Ffrainc. Oddiamgylch yr heolydd cerdda'r milwyr yn eu llodrau llaes cochion, a'u cleddyfau wrth eu hochrau, yn ddau, tri neu bedwar gyda'u gilydd, gan ysmygu *cigarettes* ac ymgomio a'u gilydd yn y dull ysgafn a ddisgwylid gan fechgyn ieuainc un neu ddwy ar hugain oed. Ond anaml i filwr Ffrengig sydd yn foddlon ar ei ran; cwyno enbyd sydd drwy'r wlad yn erbyn y drefn o wasgu pob gwryw i'r fyddin; ac amharu o leiaf ddwy flynedd o amser goreu bywyd. Un noswaith cyfarfyddais a milwr ieuanc yn eis-

tedd ar sedd yn y coed yn un o'r parciau yn Brest; dechreuais siarad drwy gynyg *cigarette* iddo, a chymerodd hi'n awyddus a diolchgar. "Sais ydych chi, ynte?" gofynai.

"Ie, Sais o Gymru."

"P'le mae Cymru?"

"O, rhan o Brydain yw Cymru, 'run fath ag yw Llydaw yn rhan o Ffrainc."

"Pa iaith a siaredir yn Nghymru?"

"Cymraeg a Saesneg, yr un fath ag y siaredir Ffrancaeg a Llydawaeg yma."

"Ydy chwi'n medru Llydawaeg?"

"Na, nid wyf yn siarad ond Ffrancaeg. O Paris yr wyf fi'n d'od, ac yma yn Brest y rhaid i mi fod am rai misoedd fel y mae gwaetha'r modd."

"Ai nid ydych yn hoffi bod yn y *barracks* yma?"

"Nid llawer o le sydd yn y *barracks*, y mae'r *drill* yn drwm iawn, a phan fo amser genym, mae gwneuthur dim yn agos gymaint baich. Y mae'r bwyd a'r ddiod yn wael ac nid yw'r dillad yn rhy dda. Ydych chwi wedi bod yn filwr hefyd?"

"Nag wyf ddim. Nid oes neb yn myn'd yn filwyr yn Lloegr os na fydd yn dewis."

"Pa fath fwyd maent yn gael yn y *barracks* yn Lloegr?

"Bwyd pur dda, feddyliaf."

"Fedrwch chwi ddweyd, er engraifft beth maent yn gael i ginio?"

"Cawl a chig eidon a phytatws a thipyn o bwdin reis efallai. Yn wir ychydig wn am fywyd milwyr Lloegr. Nid llawer o honynt fyddaf yn gyfarfod."

"Faint y dydd fyddant yn gael?"

"Swllt—dim ond un swllt—rhyw ddwy geiniog yn fwy na *franc*, fel y gwyddoch."

"Un swllt y dydd! Faint dybiech y mae'r milwr Ffrengig yn gael?"

"Pum *franc*, efallai."

"Na, na, yr ydych yn cellwair."

"Beth ynte, dwy *franc*."

"Na, na, treiwch eto."

"Wel, yr wyf fi'n rhoi fyny."

"*Un ddimau'r dydd. Un sou!*

"Nid rhyfedd ein bod ni'r bechgyn ieuainc yn anfoddlongar o dan drefn *conscription*. Yn gorfod treulio blynyddau ieuenctyd am ddimau'r dydd, a byw ar drugaredd ein rhieni am ychydig arian poced. Peidiwch a son am dâl bychan milwr Lloegr, ond cofiwch dynged ein milwyr ni,—*dimau'r dydd!*"

Ac y mae'r bechgyn ieuainc hyn, lawer o honynt wedi derbyn yr addysg oreu, wedi eu dwyn i fyny mewn amgylchiadau cysurus ac yn cymeryd golwg eang ar faterion y dydd; ac y maent oll yn siaradwyr hyawdl a llithrig ar bron pob pwnc. Y mae'r Ffrancwr fynychaf yn ddeallus iawn, a golwg lled glir ganddo ar ei destyn. Ond y mae cyfundrefn *conscription* yn lladd gwir wladgarwch; ac os nad yw'r un teimlad yn mhlith milwyr yr Almaen, gwae byddinoedd Ffrainc os byth y tyr rhyfel rhyngddi a'r hen elynes. Y mae prophwydi y milflwyddiant ers blwyddi lawer yn gwaeddi, yn y maes, ar y bryniau, ac yn nghonglau'r heolydd, "A oes Heddwch?" Ac y mae'r byd yn ateb "Heddwch!" dan ddiwyd hogi ei gledd, a thrwsio ei fagnelau.

S.

YR UNDODWYR YN OL "PERL Y PLANT."

Yn Rhifyn Awst o *Perl y Plant* ymddengys ysgrif o dan y Penawd "Y Sectau yn Nghymru—yr Undodwyr." Misolyn ceiniog i blant yr Eglwys yw y *Perl*, dan olygiaeth y Parch. Ganon Camber-Williams, Caerfyrddin.

Ar ddiwedd yr ysgrif ymddenys y

llythyrenau J.R.P., ond cred llawer fel finau mai y Golygydd mewn *disguise* yw J.R.P. O leiaf gan mai efe yw y Golygydd nid yw yr ysgrif wedi ymddangos heb yn wybod iddo.

Amcan mawr yr ysgrifenydd ydyw ceisio profi—na, nid profi, ond hòni—nad oes neb yn Gristionogon– ac yn neillduol nad yw Undodwyr—oddigerth aelodau'r "Fam Eglwys." Mae'n awyddus iawn i hau rhagfarn yn nghalonau plant "yr Eglwys" at Undodwyr ac Undodiaeth, a gellir dweyd am yr yspryd yna yn iaith *textbook* y Canon, "megys yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon."

Gadewch i ni sylwi ar ei honiadau —yr wyf yn dyweyd honiadau, am nad oes, mor bell ag y gallaf fi weled, ymresymiadau, ganddo o gwbl. Ceisia gan y plant gredu mai "yr Eglwys" neu y "Fam Eglwys" a hi yn unig sy'n gwneud i fyny yr Eglwys Gristionogol. A siarad yn rhesymol a llythyrenol mae'n amheus genyf a ddylasem gyplysu y gair eglwys â Iesu o gwbl. Ni ddangosodd Iesu erioed awydd i sefydlu eglwys. Pwnc mawr Iesu oedd cael gan ddynion i fyw bywydau gonest, diragrith a chariadus. Nid oedd Iesu na duwinydd—yn yr ystyr roddwn ni i'r gair heddyw—nag *organizer*. Ddysgodd Iesu erioed syniad i'r bobl er mwyn y syniad ei hun, ond fel cynorthwy iddynt i fyw y gwir fywyd. Dweyd gwirionedd newydd er symbylu i fywyd newydd oedd Iesu. Heretic mawr oedd Iesu o'r safbwynt Iuddewig—mor bell ag y gallaf fi ymresymu, heretic mawr ydyw heddyw o'r safbwynt iawnffyddol. Cafodd ef ddigon ar eu seremoniau, a'u ffurfiau; iddo ef pethau gweigion oeddynt—i Iesu rhagrithwyr oedd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, pobl flaenaf y deml a'r synagog.

Cafodd Iesu ddigon ar grefydd a chrefydda ei genedl a cheisiodd weithio fel diwygiwr nid tufewn ond tuallan i'r deml ac ar wahan i flaenoriaid crefyddol ei oes, ond nid oes hanes iddo sefydlu na gorchymyn sefydlu eglwys arall a newydd. Ni chododd gymaint a synagog, ond aeth hwnt a lled y wlad gan wneuthur daioni ac anog dynion i fyw yn dda. Ni phenododd nag esgob na deon, na chanon nag offeiriad. Ni awgrymodd unrhyw gyffes ffydd. Ni ddywedodd erioed fod cadwedigaeth yn ymddibynu ar gredu hyn ac arall, e.e. pan ofynodd y dyn ieuanc iddo "Beth a wnaf i gael etifeddu bywyd tragwyddol?" Ei ateb oedd, nid cred hyn ac arall, ond "Car yr Arglwydd dy Dduw," &c. Y ffordd i fyw ac nid beth i gredu oedd bwysig yn ngolwg Iesu.

Dywed y *Perl* fod y sectau yn Nghymru—yr Undodwyr yn neillduol—wedi gadael "yr Eglwys" "ei chredoau, ei hordinhadau a'i gweinidogaeth."

Ai ni fuasai'r Iesu wedi gwneud yr un fath? Pa fodd y teimlai Iesu yn ngwyneb esgobion, canoniaid ac offeiriaid?

Ceisia y *Perl* gael gan y plant i gredu mai Trindodiaeth neu y "ffydd gatholig" oedd Cristionogaeth foreuol, ac mai rhywbeth mwy diweddar, rhywbeth wedi tori allan ydyw y syniad o undod Duw. Ai nid y gwrthwyneb yw y gwirionedd? A fedra y Canon nodi gymaint ag un adnod yn y Beibl, neu un frawddeg o enau Iesu ag sydd yn awgrymu trindod o bersonau yn y Duwdod, ac fod cadwedigaeth dyn yn ymddibynu ar gredu hyny?

Cyhyd ag yr arosodd dysgeidiaeth Iesu ar ei *soil* gyntefig yn Palestina ni feddyliodd neb am drindod o bersonau—nid awgrymodd neb fod Iesu a'r Yspryd Glân yn ail a thrydydd bersonau yn y Duwdod—eithr wedi iddi grwydro dros y ffiniau ac i blith Paganiaid y tarddodd ac y gweithiwyd y syniad o drindod o bersonau. Syniad paganaidd wedi ei ddwyn i mewn ydyw. Hyd yn oed yn Nghyngor Nicea yn 325 ni chafwyd allan fod trindod o bersonau gogyfuwch, ond fod Iesu o'r un sylwedd a'r Tad ac wedi ei eni cyn yr holl fydoedd—yn Nghynadledd Constantinople yn 381 y meddyliwyd y dylasid gwneud lle i'r Yspryd Glân

yn y Duwdod—nid gogyfuwch ychwaith. Pe caniatai gofod gallesid profi ar dystiolaeth haneswyr mai cael ei ddyfeisio gan esgobion paganaidd yn mhell wedi marwolaeth Iesu a'i ganlynwyr cyntaf wnaeth y syniad o drindod. Dywed yr ysgrifenydd "Gwelir fod Credo Nicea yn bur debyg i Gredo'r Apostolion ond yn fwy cyflawn." Honiad anghywir ac afresymol i'r eithaf. Cymharer y ddwy a gwelir fod yna *clauses* yn Nghredo Nicea nad oes yr un sail iddynt yn Nghredo'r Apostolion o gwbl. Heriaf hyd yn oed y Canon i brofi trindod, neu fod Iesu a'r Ysbryd Glân gogyfuwch â'r Tad o Gredo'r Apostolion.

Dywed "Mae hanes Undodiaid yn wir yn beth blin." Blin i bwy? Iddo ef a'i Eglwys? Synwn i ddim—ond os caiff fyw ychydig fe ga ragor o achos i deimlo'n flin. Credaf fod mwy o Undodwyr yn Eglwys Lloegr heddyw — yn offeiriad a lleygwyr—nag sydd o aelodau yn eglwysi Undodaidd y wlad yma i gyd a phe cawsai braich y wladwriaeth ei thynu oddiar ei hysgwydd trwy ddadgysylltu yr Eglwys byddai digon o heresi yn mhwlpud y "Fam Eglwys" i flino yspryd y Canon i fudanrwydd neu i gynddaredd gwyllt.

Dywed "Troisant yn Anghydffurfwyr yn gyntaf oll fel y cawsent gredu fel yr ewyllysient." Diolch am hyny, oni ddylasai pawb gael chwareuteg i gredu fel y gallant, ac fel y dewisant? A ydyw yn iawn i esgobion ac ereill i wneud credo *ready-made*, tebyg i gredo St. Athanasius (yr hon a ymddangosodd am y tro cyntaf yn y chwechfed ganrif) a haeru am yr hwn nas gall ei chredu 'diammeu y collir ef yn dragywydd.'? A ydyw y Canon yn credu am foment fod y miloedd aelodau yn y "Fam Eglwys" yn credu y gred uchod? Onid yw yn wirionedd fod yna dyrfa fawr tu fewn i'r eglwys—yn esgobion, offeiriaid a lleygwyr—yn gwaeddi am ddiwygio y Llyfr Gweddi Gyffredin, ac yn neillduol Gredo St. Athanasius? Onid yw yn wirionedd fod yna lu o offeiriaid yn esgeuluso ei darllen ar y gwyliau penodedig, a hyny gyda chymeradwyaeth y cynulleidfaoedd? Trueni garw fod pobl y wlad yma yn gorfod talu degwm i gynal eglwys i'w tynghedu i golledigaeth dragwyddol? Ai pobl yr Eglwys yn unig fydd etifeddion y nef?

Eto, "Yn wir mae rhai o honynt wedi mynd mor bell a pheidio credu yn Nuw." Nid Undodiaid yw y rhai hyny. Beiddiaf ddweyd fod y "Fam Eglwys" gyda'i hesgobaeth, a'i hoffeiriadaeth a'i seremoniau wedi achosi mwy o Dduw-wadwyr ac amheuwyr na'r eglwys Undodaidd.

"Bu seintiau y dyddiau gynt feirw dros gredoau hon" (y "Fam Eglwys"). Do, ond bu seintiau feirw dros y ffydd Undodaidd hefyd, ac os wyf yn cofio'n iawn Undodwr oedd y merthyr diweddaf losgwyd yn y wlad hon oherwydd ei egwyddorion. Bu seintiau Undodaidd feirw a'r "Fam Eglwys" yn codi yr ystanc iddynt. Pe cesglid yn nghyd yr holl waed a dywalltwyd gan "yr Eglwys," a'i chredoau, ei hordinhadau a'i gweinidogaeth byddai i'r olwg arno greu cynddaredd sanctaidd yn nghalon y wlad am ei gosod i fyw neu farw ar ei thraed ei hun.

Eto, "Yr enw priodol arnynt, gan hyny, fyddai gwrth-drindodwyr ac nid Undodiaid neu Undodwyr." Paham hyny? Pe arosem gyda'r enwau beth fyddai ystyr "Eglwys Lloegr" neu "yr Eglwys Sefydledig"? Nid nacaol ond cadarnhaol yw crefydd yr Undodwr. Yr wyf fi yn Undodwr nid ar gyfrif yr hyn nad ydwyf ond ar gyfrif yr hyn ydwyf yn gredu, ond yn benaf am fod rhyddid genyf fel aelod o'r eglwys Undodaidd i gredu yr hyn sydd fwyaf cydnaws a fy nheimladau a'm gobeithion fy hun. Nid wyf gyfrifol i Ganon nag eglwys, na chredo na chyfundeb ond i Dduw yn unig.

Dywed yr awdwr fod Duw yn dysgu trindod, "canys felly y dysgodd Duw ei hun." Yn mha le y dysga Duw hyn nis gwn, ac nid yw yr ysgrifenydd yn dweyd. Bron

nas gellir dweyd fod honiad o'r fath yna yn gabledd.

Ond i derfynu. "Gan nad yw'r Undodwyr yn credu felly (yn y Drindod) nis gallant fod yn Gristionogion?" A wyr y Canon fod Esgob Hampden, Esgob Watson, Esgob Burnat, Arglwydd Brougham, Dr. Arnold, Dr. Adams, Dr. Samuel Parr ac amryw ddynion goleuedig a chyfrifol ereill er ys llawer dydd wedi cydnabod fod Undodiaid yn Gristionogion? Mae'n ormod o'r dydd i ddweyd fel arall. Gofaled y Canon neu efe fydd yr heretic yn y man. A wyr efe fod amryw offeiriaid, Dr. Stopford A. Brooke er engraifft, wedi gadael "yr Eglwys" am yr eglwys Undodaidd, am y credent fod mwy o grefydd Iesu gan yr olaf?

Os mai glynu wrth eiriau ac egwyddorion Iesu; os mai dangos yspryd addfwyn, goddefol sy'n gwneud Cristion, gofynaf pa un ai y "Fam Eglwys" ai yr eglwys Undodaidd sydd a'r hawl oreu—os iawn cymharu—i'r enw? Mae ymosodiadau o'r natur yma yn galw'n daer arnom fel Undodiaid i ddihuno.

Yn ddiameu mae y wlad yn ymysgwyd, ac os nad yw yn ymysgwyd i Undodiaeth fel y credaf fi—mae'n ymysgwyd i ryddid, i roddi rheswm ar ei orsedd—rheswm o flaen esgob ac eglwys a Bibl. I mi mae Undodiaeth yn yr awyrgylch—yn sicr mae miloedd yn y wlad yma yn gofyn am grefydd ag a fydd yn help i gredu yn Nuw a'i garu, crefydd i godi dyn. Carwn weled un o'r *Unitarian Vans* yn dod i Gymru—mae lle iddi a galw am dani. Arfogwn a byddwn ffyddlon. Ymfalchiwn yn ein rhyddid a gosodwn ein cenadwri gerbron y wlad yn wrol a hyderus.

Llwynrhydowen. E. O. JENKINS.

UNDODIAETH YN NGOGLEDD CYMRU.

Yn ddiameu bydd llawer yn barod i wfftio a chwerthin am ben y syniad fel dychymyg disail a disylwedd. Dyna wnaed a Columbus gan y morwyr pan y dywedai wrthynt ei fod yn arogli tir wrth hwylio ychydig filldiroedd y tu allan o olwg gwlad yr Amerig. Ond yn foreu tranoeth gwelwyd llinell ddu yn araf godi dros y gorwel i wireddu y gosodiad. Y mae pob peth o hyd yn bosibl gyda Duw. Esboniad rhagorol ar y testun hwn oedd ymdrechion Mari Jones o'r Bala i ddyfod i feddiant o gopi o'r Ysgrythyrau—yr hyn a wnaeth er gwaethaf diffaethder y daith a gerwinder gauafol yr hin. Diffyg dyn yn aml yw troi yn ol pan yn ymyl llwyddiant. "Nid oes neb a'r sydd yn rhoi ei law ar yr aradr ac yn edrych ar y pethau sydd o'i ol yn gymwys i deyrnas Dduw." Caffed y darllenydd amynedd ynte i gyd-ystyried y posiblrwydd o gael gan y gogleddwyr i sillebu y Shibboleth Undodaidd.

Ychydig flynyddau yn ol, traethodd y Parch. William James, B.A., yn rhinwedd ei swydd fel llywydd y Gymdeithas Undodaidd Gymreig araeth ragorol ar y testun "Ysmotyn du yn Ngeredigion." Nid oes genyf gopi o fy mlaen wrth ysgrifenu yr erthygl hon, ond cof genyf iddo geisio cyfrif am fodolaeth y frawdoliaeth fechan yn Nyffryn tlws y Teifi yn rhanol trwy ddangos cyfaddasrwydd naturioldeb y lle i dyfiant y cyfryw syniadau. Gwir ddigon mi gredaf, canys fel y dywed y prif-fardd

Seisnig, mae'r un gydgord glywir yn y ser i'w chlywed hefyd yn yr enaid dynol pe gellid ei ryddhau oddiwrth gyfyngderau corph y cnawd.

Ond os oes gan dlysni a harddwch ein hamgylchynedd rywbeth i wneud a chywirdeb ein syniadau am natur eu hawdwr paham na fuasai gogleddbarth Cymru wedi blaenu arnom, oherwydd fel y cydnabyddir gan bawb ydynt yn alluog i farnu, nid oes brydferthach man yn yr holl fydysawd. Y mae'r trigolion hefyd yn ddynion crefyddol o'r radd uwchaf fel y gwna amlder eu temlau dystiolaethu. Wrth gyfrif am fodolaeth unrhyw sefydliad rhaid ystyried myrdd o ddylanwadau bach a mawr nad yw eu tarddiad bob amser yn hawdd eu holrhain.

Dywedir i gyfundrefn llywodraeth Rhufain barotoi'r ffordd ar gyfer lledaeniad y grefydd Gristionogol, ond beiddiaf er hyny ddweyd y buasai wedi ei chyfyngu i wlad Palestina onibae am ymdrechion Paul a chenadwyr selog ereill oeddynt wedi eu meddianu gan frwdfrydedd dros yr achos newydd. Felly, yn ol fy nhyb i, y rheswm mawr na fuasai Undodiaeth wedi gwneud ei ffordd yn uwch i fynu na Chiliau Aeron yn gynar yn y ganrif ddiweddaf yw, nad oes yr un ymdrech wirioneddol wedi ei gwneud er gwasgar ein syniadau yn mharthau gogleddol y dywysogaeth. Mae'n wir i Dr. William Griffiths, gynt o Bontypridd, wneud ymgais ganmoladwy mor bell yn ol a'r flwyddyn 1894, ond ni chafodd fawr o gefnogaeth gan ei gyd-lafurwyr yn y deheu, a'r canlyniad fu i'r tân gael marw allan heb osod dim yn rhagor arno. Profiad y cenhadwr oedd fod y gwaith yn anhawdd a'r gwrthwynebiad yn fawr, ac eto fe ganfyddai yr adeg hono rai arwyddion dymunol a gobeithiol pe defnyddid hwy i bwrpas a daioni. Y mae sefyllfa pethau wedi newid yn fawr iawn er y flwyddyn y soniwn am dani. Gellir dweyd fod addysg ein gwlad wedi ei geni a thyfu yn y cyfamser, a thrwy hyny wedi galluogi y werin i ddarllen cynyrchion gore'r wasg Seisnig, a ffurfio syniadau drostynt eu hunain. Sibrydir ar brydiau, er yn ddistaw o bosibl, fod gweithiau Channing, Emerson a Martineau yn llechu mewn modd dirgelaidd yn llyfrgelloedd llawer o bregethwyr uniongred Cymru. Dyddorol hefyd fyddai gwybod pa sawl copi o'r *Encyclopaedia Biblica* sydd wedi gwneud eu ffordd i gysegr sancteiddiolaf cenhadon hedd ein gwlad. Os iawn i ni farnu wrth y ffrwythau anturiaf ddweyd fod llawer o'r pregethau draddodir heddyw wedi tynu eu nodd o rywle nad yw iawn eu henwi—rhag tramgwydd. Y mae yna rywbeth yn yr holl awyrgylch y dyddiau yma sydd yn ffafriol i ryddymofyniad ac anibyniaeth barn. Gwelir hyn yn ymddangosiad y Dduwinyddiaeth Newydd yn y byd crefyddol a'r blaid lafur yn y byd politicaidd. Dwy agwedd o'r un adfywiad cyffredinol; a chredaf hefyd fod y ddwy wedi dyfod i aros er yr holl gri godir yn eu herbyn. 'Yn ol at natur' yw eu harwyddair a phan ddelo dynion i weled mai dyna yw eu tuedd a'u hamcan, gwnant eu mabwysiadu a'u mynwesu yn lle eu gwrthod a'u gwrthwynebu. Ond yn y cyfamser bydd galw am ymdrech ac aberth ar ran yr ychydig sydd a'r gwaith wedi ei ymddiried iddynt. Nid yw llaw amser wrthi ei hun byth yn ddigon i arwain tueddiadau yr oes. Rhaid wrth gydweithrediad y meddwl dynol os am sicrhau llwyddiant.

At the roaring loom of time I ply,
Weaving for God the garment we see
him by.

Yn ngwyneb y sefyllfa hon priodol yw gofyn pa ran fwriada Undodiaid Cymru chwareu yn yr efengyleiddiad newydd. Nid iawn i ni fel cynrychiolwyr cynydd a rhyddid yw sefyll o'r neilldu tra y mae ereill yn llafurio ar ran yr egwyddorion ystyrid unwaith fel etifeddiaeth neillduol i ni ein hunain.

Bydd ein hawl i barch ac edmygedd yn y dyfodol yn dibynu nid ar yr hyn gyflawnodd ein tadau yn y

gorphenol pell yn ol ond ar ein hymdrechion ni ein hunain yn y presenol.

Nid gweled yr enw "Undodiaeth" wedi ei argraffu uwchben bob peth sydd yn eisieu ond cael gan y wlad i goleddu y syniadau hyny. Y mae'r enw hwn yn fwy na'r un arall yn sefyll am danynt. Canys y neb nid yw i'n herbyn trosom ni y mae. Nid wyf fi yn chwenych chwaith clywed son am godi capeli newyddion oherwydd fod Cymru yn orlawn o honynt yn barod. Ychydig amser yn ol darllenais draethawd byr gan y diweddar Henry Drummond ar "Ddinas heb ynddi Deml," ond nis gallwn lai na meddwl mor wan a diobaith oedd sail ei freuddwyd pan y cofiwn fod yn y pentref bychan lle 'rwyf yn byw ddim llai na haner dwsin o gapeli yn ogystal a'u llysfam, yr Eglwys Wladol. Teimlaf ar brydiau fod angen am ryw Esperanto ysbrydol arnom fel y medrwn uno a'n gilydd i raddau mwy wrth addoli yr unig wir a'r bywiol Dduw. Ond yr hyn sydd ryfedd yw fod yna ar yr un pryd gymaint o ddynion yn cadw draw am nad oes ganddynt yr un man cymwys i fyned iddo, ac yn enwedig y mae hyny yn wir pan ddigwydd y lle fod yn amddifad o eglwys rydd megys eiddo yr Undodiaid.

Felly, o dan y cyfryw amgylchiadau, gwelwn fod yna angen am ryw fath o gynyrchfan yn rhydd oddiwrth rwymedigaeth i ddaliadau poblogaidd y dydd, pe dim ond fel noddfa i'r rhai sydd wedi dianc o wlad eu caethiwed. Ond heblaw hyny gall lle o'r fath wasanaethu fel canolfan, o ba un y gellir gwasgar ein hegwyddorion yn mhlith ereill y tu allan. Gwnaed hyn yn Aberystwyth, a chredaf ei bod yn anhawdd amgyffred y dylanwad a'r daioni sydd wedi ei effeithio yn y lle eisoes.

Ac yn awr, i ddychwelyd at y testun yn fwy uniongyrchol, fy amcan penaf wrth ysgrifenu yr erthygl hon, oedd tynu sylw y darllenydd at gynwys yr erthygl ragorol sydd gan y Golygydd (y Parch. D. Delta Evans) yn y *Christian Life* am Awst 31, amcan yr hon yw ystyried y posiblrwydd o sefydlu achos newydd yn Ngogledd Cymru. Ymddengys fod y gwr parchedig yn hoff o dalu ymweliad o dro i dro a phentref Llysfaen a manau ereill yn y gymydogaeth, a manteisia ar y cyfleusderau hyn i egluro i'r trigolion beth yw swm a sylwedd y gred a broffesir genym. Yr hyn barodd iddo ddechreu ar ei genhadaeth oedd sylwi yn y flwyddyn 1900 ar y cyfnewidiad oedd wedi cymeryd lle yn nheimladau ac ymddygiad y bobl tuag at Undodiaeth. Erfynient arno osod ger eu bron mewn dull syml ac eglur rai o brif agweddau ein syniadau a'n hegwyddorion. Gwnaeth hyn amryw droion gyda'r canlyniad na cha yn awr hamdden i ddim pan yn ymweled a'r lle ond i ddysgu a gwasgar y goleuni sydd ganddo. Ychydig wythnosau yn ol talodd yr ymweliad diweddaraf, ac yr oedd yr argraff wnaed arno mor ddymunol fel y mae o'r diwedd wedi meddwl am y cynllun o gymeryd adeilad am amser byr fel y medr areithio a phregethu ynddo yn ystod ei arosiad.

Dim ond prawf fydd hyn, ond gwneir ef gyda'r amcan o sefydlu yn y pen draw, os yn bosibl, achos parhaus. Fe gred y cenhadwr fod y bobl—y mwyafrif mawr o ba rai ydynt fwnwyr a chwarelwyr, yn awyddus am yr hyn sydd gan Undodiaeth i'w gynyg iddynt. Fel y dywedodd un wrtho os na lwydda i wneud proselytiaid o'r oll bydd iddo ddihuno y gweddill at eu gwaith. Os gwir yw tystiolaeth Mr. Delta Evans o barthed i'r driniaeth garedig dderbyniodd oddiar ddwylaw y Bedyddwyr, haeddant ein parch a'n hedmygedd mwyaf, canys nid yn unig y rhoddwyd iddo gyfleusdra i draethu ei genadwri yn un o'u cyfarfodydd Sabbothol ond ystyrid ef hefyd ar ol hyny yn ddigon cymwys i ddiweddu y cyfarfod trwy weddi. Wrth ganfod yr ysbryd eang a rhyddfrydig hwn a amlygir yn y lle teimla Mr. Evans yn ddigon calonog i gymeryd cam pwysig. Awgrymwyd iddo gan rywun oedd a'i sel yn fawr dros y gwaith fod yn meddiant y Wesley-

aid gapel ellid fenthyca, gan fod y gynulleidfa wedi myned i addoli i adeilad newydd. Gobeithio mai diangenrhaid yw i ni ddweyd fod y gwaith o sefydlu achos newydd yn ormod i un dyn ei gyflawni yn llwyddianus heb gydweithrediad rhai cynorthwywyr a chefnogaeth rhyw ddylanwad o'r tu ol. Cefais y fraint o gyfranu rhywfaint tuag at gychwyniad rhywbeth cyffelyb yn Aberystwyth, ac felly mi wn ychydig am lawer o'r anhawsderau fydd yn ofynol eu gwynebu a'u goresgyn wrth gario'r gwaith yn ei flaen. Yn naturiol gwna Mr. Evans apel at Undodiad y Deheudir, ac yn enwedig y rhai hyny o honynt sydd yn trigianu yn yr enwog "Ysmotyn Du" am ychydig o gynorthwy a chefnogaeth. Yr anhawsder yw gwybod beth i wneud ac yn mha ffurf y mae i ni gynyg ein gwasanaeth. Gallwn feddwl fod y cwestiwn yn deilwng o ystyriaeth yn un o'r cyfarfodydd chwarterol neu flynyndol. Buaswn yn awgrymu y cynllun o ddefnyddio *van* megys ag y gwneir gan Undodiaid Lloegr, onibae fy mod yn wybyddus o'r gwahaniaeth mawr sydd rhwng ysbryd y Sais a'r Cymro. Fel dechreuad gallasem gyfranu rhywfaint, os bydd angen, tuag at gyflogi neu bwrcasu yr adeilad y cyfeiriwyd ato, ac hefyd cynyg gwasanaeth cynrychiolydd yn ol fel y bydd galwad am dano.

Neu feallai mai'r peth goreu fedrem wneud fyddai rhoddi gwahoddiad i Mr. Delta Evans i ddyfod i un o'n cyfarfodydd chwarterol neu flynyddol fel y caffo fantais i osod o'n blaen y cynllun sydd ganddo mewn llaw. Un peth yn rhagor; dylesid gwneud mwy o ymdrech i wasgar yr YMOFYNYDD. Dywed Mr. Evans yn ei erthygl iddo fyned i dy un cyfaill, a'r peth cyntaf welodd oedd copi o'n misolyn ar y bwrdd. Ymddengys iddo ddyfod yno drwy garedigrwydd rhyw ymdeithydd oedd wedi digwydd galw a chyffesu ei hun yn Undodwr. Nid wyf am wneud rhagor o awgrymiadau neu mi fuaswn yn ceisio dangos y priodoldeb o osod ychydig arian o'r neilldu yn flynyddol er danfon yr YMOFYNYDD i bob man lle bydd y Golygwyr yn teimlo fod angen am dano. Carwn ysgrifenu llawer yn rhagor, ond palla gofod, ac felly terfynaf, gan obeithio y bydd i'r cwestiwn dan sylw, ac yn enwedig yr awgrymiadau, gael ystyriaeth oreu pob aelod o'n heglwysi yn Neheudir Cymru. Feallai fod gan rywun arall air i ychwanegu.

CARWR CYNYDD.

PRIODASAU.

GORPHENAF 28 (Boreu Sul), yn nghapel Hebron, Clydach, gan y gweinyddwyr arferol, unwyd mewn glan briodas, Mr. David Rees a Miss Mary Richards, unig ferch yr awenydd byw, Perllanog, Clydach; a chwaer i'r Parch. W. Alfa Richards, Gellionen.

Boed heddwch bywyd addien—a [dyddiau
Dedwyddwch i'w Heden;
A dihalog doed heulwen,
O wlad Ior i'w haelwyd wen.

BANOS.

Moried David a Mary—i lwyddiant
Porthladdoedd daioni;
Gwynddydd haf a'i loewaf li',
Hwnt i'w hanes fo'n toni.

ALFA.

AWST 16, yn nghapel Llwynrhydowen, gan y Parch. E. O. Jenkins, Mr. Thomas Jones, Llwynrhydowen Chapel House â Miss Gwinnie Williams, Clettwr Hall, Pontshan. Dedwydd fo'r undeb.

MARWGOFION.

AWST 29, yn 41, Victoria Road, Chester, Jenkin, maban y Parch. D. Jenkin Evans, tua dwy flwydd oed. Gwasanaethwyd yn yr angladd ar y Sadwrn gan y Parch. H. F. Short, Crewe.

AWST 30, yn 18 mlwydd oed, Simon, anwyl fab Mary Jones, Pantyronen, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Capelybryn; a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog gyda chynorthwy y Parch. D. Evans.

MEDI 9, yn 70 oed, John Evans, Tynewydd, gynt o Esgeronw. Dechreuodd glafychu tua blwyddyn yn ol, pryd y symudodd i fyw at ei ferch i Rwgan Parc, lle y cafodd bob gofal a thynerwch yn ei gystudd hir a phoenus. Ar y dydd uchod ehedodd ei yspryd at Dduw. Claddwyd y dydd Iau canlynol yn Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd yn y ty cyn cychwyn gan y Parch. D. Griffiths, Llangranog, ac yn y capel gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Yr oedd cerddoriaeth bob amser yn ffynonell llawenydd a hyfrydwch i'n hen gyfaill ymadawedig. Arweiniodd y gân am flynyddau yn y Bwlch, ac yn ystod gweinidogaeth Gwilym Marles, yr oedd clywed "cor teulu Esgeronw" yn y cyfarfodydd adloniadol yn *treat* na cheid ei bath yn yr ardal yr adeg hono. Trwy ei oes hirfaith bu o wasanaeth mawr i gerddoriaeth y Bwlch, ac anaml y byddai ei le yn wag yn y cwrdd a'r ysgol gân. Bydded i'w chwaer oedranus a'i blant, yn nghyd a'r perthynasau oll i roddi eu pwys ar yr Arglwydd yn nydd eu galar.

MANION AC HANESION.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.—Dymunir hysbysu mai yn nghapel y Graig, Trebanos, y cynhelir y cyfarfodydd chwarterol Hydref 30 a 31, ac nid yn Gellionen. Hefyd dymunir ar i bawb sydd yn golygu dod, ac am gael gael nawdd gwely ar ol dod, ar iddynt i ddanfon i hysbysu hyny,

Dewch a chroeso bawb a allo,
Cewch dderbyniad goreu cariad.

Dros yr eglwys, W. Alva Richards.

LLWYNRHYDOWEN.—Fe gofia rhai o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD i Ysgol Sul Annibynwyr Pencader dalu ymweliad a'r eglwys uchod y llynedd gyda'u pwnc a'u canu. Sul, Medi yr 8fed—diwrnod hafaidd a gwresog—talodd ysgol y Llwyn ymweliad yn ol, ac mae'n dda genym allu dweyd i'r ysgol fynd yn gryf. Yr oedd y siwrne yn bleserus iawn, y golygfeydd yn hardd ac amrywiol, llawer o bobl min y ffordd yn dangos eu dymuniad am ddiwrnod hwylus trwy godi eu dwylaw pan oeddem yn pasio, a phawb o aelodau yr Ysgol Sul yn weddaidd a hapus eu golwg. Wedi cyrhaedd Pencader a disgyn o'r cerbydau ni fu cyfeillion y lle yn hwyrfrydig i ddangos eu croesaw a'u llawenydd i'n derbyn, a phrofasant eu hunain yn bobl garedig a brawdol drwy y dydd. Erbyn dau o'r gloch yr oedd y capel eang yn orlawn. Dechreuwyd y gwasanaeth a holwyd yr ysgol gan y Parch. T. Lloyd Jones, B.A., B.D., gweinidog y lle, a holodd yn hapus a bywiog. Pwnc y plant oedd y gofyniadau ar gyfer yr arholiad diweddaf ac eiddo yr ysgol fawr oedd Luc 15. Canodd y plant o dan arweiniad Mr. D. R. Jones, Rhydyfene, "Telynau'r Plant," a'r cor o dan arweiniad Mr. J. Jones, Rhydowen mill, "Hen Alaw," "Pa le mae gwaredwr Israel?" a "Dryll-iwyd y Delyn." Tystiolaeth pawb ydoedd i'r ysgol fyn'd trwy y pwnc

a'r canu yn neillduol dda. Ar ddiwedd y gwasanaeth datganodd Mr. Jones ei lawenydd ef ac eiddo y gynulleidfa i'n derbyn i'w plith, ac atebwyd gan Cad. Davies a'r Parch. E. O. Jenkins. Wedi terfynu y cyfarfod cafwyd digonedd o de blasus yn yr ysgoldy gerllaw. Yn yr hwyr pregethwyd gan Mr. James Abel, y *supply* am y dydd, ac E. O. Jenkins. O am ragor o gydymdeimlad a chydweithrediad rhwng gwahanol ganghenau yr eglwys.

CAPELYFADFA.—Dydd Llun, Awst 26, cynhaliodd cynulleidfa y lle uchod ei gwyl de flynyddol. Gan fod y tywydd wedi troi allan mor ffafriol cynhaliwyd y wledd mewn cae perthynol i Mr. Thomas, Fadfa, yr hwn fu mor garedig a'i osod at ein gwasanaeth am y prydnawn. Yr oedd hwn yn de arbenig fel i ddatgan eu llawenydd ar eu llwyddiant yn symud yn llwyr y ddyled oedd yn aros ar y capel newydd. Amlwg oedd fod pawb yn mwynhau eu hunain yn rhagorol, yr oedd y te a'r danteithion yn bobpeth ellid ddisgwyl, ac y mae y gwragedd a'r merched ieuainc fu'n parotoi a chyfranu y wledd yn haeddu clod mawr ar eu llwyddiant. Rhoddwyr y te eleni oeddynt Cadben Davies a'r gweinidog, y Parch. E. O. Jenkins—dau foneddwr fuont ar eu goreu yn gweithio yn nglyn a'r gwaith o adeiladu y capel newydd hardd sydd erbyn hyn yn ddiddyled, ac y maent yn haeddu clod neillduol am eu hymdrechion. Ar ol y te cafwyd areithiau byrion gan y Mri. T. G. Thomas, T. Thomas, Cadben Davies a'r Parch. E. O. Jenkins. Cyn ymadael canwyd gyda hwyl amryw o donau cynulleidfaol dan arweinyddiaeth Mr. J. Penry Lewis, ac yna gwahanwyd mewn llawenydd ar ol prydnawn o fwyniant perffaith.

SYCHBANT, CAPELYCWM.—Wedi'r cyfan, er yr holl wlybaniaeth, tymor lled dda fu 1907. Cawsom gnydiau trwm, ac y mae yr yd a'r gwair eisoes yn yr ydlanau yn weddol gynheifus. Nid llai yw'r llanw hefyd yn hanes yr eglwys yn y lle uchod. Er cysegru ein mynwent yn gynar gan ddagrau, eleni welodd agoriad ein capel newydd, a'r rhodd haelionus o lestri cymun arian o law Miss Getta Jones, Brynllwyd, ac i'r un amcan mawr y wledd ddarparwyd i ni gan Mr. a Mrs. Evans, Caellan ar y 23ain o Awst. Yr oedd y darpariadau o'r fath oreu, a chafodd pobl lawer, o bell ac agos, y fraint o yfed a bwyta eu gwala. Ar ol te aeth y plant a'r rhieni i "Fanc Hokins" i redeg a chwareu, a mawr fu'r difyrwch wrth dori rhaffau'r ardal mewn *tugs of war*. Diolch yn fawr i'r brawd Ifan Lloyd am ganiatad i fyn'd yno. Yn yr hwyr cynhaliwyd y cyngherdd cyntaf yn y capel newydd. Galwyd ar weinidog parchus y lle i gadeirio a'r Parch. E. O. Jenkins, Llwyn, i arwain yn ei ffordd fedrus arferol, ac awd trwy raglen faith mewn adrodd a chanu, yn nghyd a diolchiadau barddonol am y te. Yr ydym oll tan rwymau dyledus i gyfeillion ledled yr ardal am gynorthwyo, rhai o honynt am dro yn ardal eu mhebyd. Deuent eto i'n lloni cyn ä haf arall heibio. Bydded yr wyl a'r cwrdd hwn yn safon i ddyfodol ddeiliaid Capelycwm, ac arosed bendith nef ar y cyfan oll.

CAERDYDD.—Yr oedd yna gynulliad da i roesawu y Parch. F. Blount Mott ar ei sefydliad fel gweinidog West Grove. Pregethwyd yn y prydnawn gan y Parch. J. Page Hopps, ac yn yr hwyr cadeiriwyd gan Mr. H. Woolcott Thomas, a llefarwyd geiriau calonog gan amryw weinidogion ac eraill. Nid ymddengys fod yno'r un gweinidog lleol yn ddigon rhyddfrydig i roddi ei bresenoldeb.

DYLED CAPEL PENTRE, GLANRHONDDA.—Dymuna swyddogion yr eglwys uchod gydnabod yn ddiolchgar y rhodd o 20s dderbyniwyd oddiwrth Mr. J. Davies, Banc Bethania, Llanon, tuag at ddileu'r ddyled sydd yn aros ar y capel.

Argrafflwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR, THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds.

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ., CARMARTHEN.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & Co.,

THE ACKNOWLEDGED HOUSE

FOR

FURNITURE.

Rare Materials and Elaborate Workmanship are necessarily costly, but that the main essentials of a piece of Furniture—Beauty, Reliability, and Adaptability—may be secured at Low Prices, will be amply proved by an inspection of our Immense Stocks.

Inferior, badly-made Furniture is never CHEAP, no matter what its price may be.

We sell only such as we know will give satisfaction in use and afford gratification by its appearance, at prices which are Strictly Moderate and based entirely on the value of the materials used.

Our Show Rooms are now replete with the Finest Collection of Furniture and Furnishing Materials for all kinds of houses we have ever shown, and we respectfully invite intending purchasers to examine the same before placing their orders.

FURNITURE CATALOGUE (80 PAGES)
FREE ON REQUEST.

Renovations & Removals. Estimates Free.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.